# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

**Rhifyn 539 · Chwefror 2023 · 50c**


## Cofio Elwyn



Rhowch i'r un fu'n parchu'r iaith ei haeddiant
Am ymroddiad hirfaith
Yn rhoi dysg ar hyd y daith
Yn llifeiriant llafurwaith.

Rhowch y mawl i'w Fraichmelyn am wreiddiau
Yr amryddawn Elwyn;
Am roddi gwerth mewn perthyn,
A'r cof o'r morthwyl a'r cŷn.

Rhoddwch i'r gwâr ei haeddiant; ein hanes
Roes inni yn feddiant;
Rhag y gwyll rhoi diwylliant,
Rhoi stori'n plwyfi i'n plant.

**Ieuan Wyn**

**Rhagor o deyrngedau ar dudalen 8**

Ym marwolaeth Dr J. Elwyn Hughes collodd Dyffryn Ogwen a Chymru ŵr yr oedd ein hiaith, ein diwylliant a'n hanes yn eithriadol o bwysig iddo – yn galon ei weithgarwch. Treuliodd oes yn cyfrannu o'i alluoedd, ei ddoniau a'i fedrau fel athro, ieithydd a hanesydd lleol, ac fel awdur bu'n rhannu ei wybodaeth drwy ei lyfrau gwerthfawr ar feysydd ei ddiddordebau.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll yn eu colled.

Cyhoeddwn yma werthfawrogiad ac atgofion rhai a fu'n ymwneud ag Elwyn mewn rhyw ffordd neu'i gilydd drwy'r blynyddoedd.

### DERFEL ROBERTS

"Daeth Elwyn Hughes yn rhan o dîm cynhyrchu Llais Ogwan yn fuan iawn wedi ymddangosiad y rhifynnau cyntaf yn 1974. Fel brodor o Fraichmelyn ac athro Cymraeg yn Ysgol Dyffryn Ogwen, roedd gan Elwyn ddiddordeb byw ac ysol ymhob gweithgaredd Cymraeg a Chymreig o fewn y dyffryn. Roedd ei gariad at y fro hon yn treiddio trwy bopeth a wnâi ac roedd ei wybodaeth am hanes ac am gymeriadau lleol yn ddiguro o eang. Bu ei gymorth i ni fel criw ifanc dibrofiad wrth gynhyrchu'r papur bro yn amhrisiadwy, oherwydd er nad oedd o gymaint â hynny'n hŷn na ni, roedd iddo ryw aeddfedrwydd ac agwedd fwy cyfrifol tuag at yr hyn ellid ei ddweud neu'i wneud mewn print. Roedd sadrwydd ei farn yn peri i ni sobri a lliniaru rhai agweddau mwy 'eithafol'o'n heiddo. Doedd Elwyn ddim yn 'rebel' yn yr ystyr o fod yn ymosodol tuag at rai agweddau mwy ceidwadol neu adweithiol yn y fro, ond fe gytunai â ni bod angen procio cydwybod ambell i sefydliad a chyfundrefn.

Yn ymarferol, Elwyn â'n cyflwynodd i rai fel y diweddar Ernest Roberts, Bangor, oedd yn berchen stôr o wybodaeth am hanes a chymeriadau bro Ogwen. Gydag anogaeth Elwyn Hughes cyfrannodd Ernest Roberts golofn o dan yr enw 'Cerrig Mân' am nifer mawr o rifynnau ac roedd diddordeb sylweddol yng nghynnwys y golofn honno gan ddarllenwyr o bell ac agos. Elwyn ei hun ysgwyddodd y cyfrifoldeb am golofn o'r enw 'Y Drwg yn ein Mysg', sef colofn fisol yn adrodd am rai o'r digwyddiadau a fuasai dan ymchwiliad gan yr heddlu yn ystod mis neilltuol. Bu'r golofn honno'n gyfrifol am un neu ddwy saga arall yn hanes Llais Ogwan! Elwyn hefyd fu'n gyfrwng i wahodd a pherswadio pobl fel y diweddar Alun Glyn Jones, Ffordd Coetmor a'r diweddar John Alun Owen o'r Hen Dyrpeg i ymuno â'r tîm golygyddol. Elwyn hefyd berswadiodd ei gyd-athro, Godfrey Northam, i ymuno â ni, a bu'r tri uchod yn rhan annatod o dîm llywio Llais Ogwan dros y blynyddoedd cynnar ac yn wir, hyd ddiwedd ei oes yn hanes Godfrey. Bu eu cyfraniad egnïol a'u doethineb yn dra gwerthfawr.

Yn wir, ni phallodd diwydrwydd Elwyn yn ei ymwneud â Llais Ogwan gan iddo gyfrannu erthyglau o'i eiddo'i hun i'r papur bob mis yn ddifeth. Erthyglau am hanes a chymeriadau gwreiddiol a diddorol yr ardal oedden nhw bron i gyd a llwyddodd i lenwi colofnau Llais Ogwan gydag erthyglau o'r fath am dros 45 mlynedd.

Roedd ymweld â chartref Elwyn, yn peri syndod i lawer ohonom, nid yn unig oherwydd maint ei lyfrgell, ond oherwydd ei threfnusrwydd. Gallai Elwyn daro ei law ar yr union gyfrol fyddai arno ei hangen mewn amrantiad. Nid oedd raid chwilio a chwalu trwy bentwr o gyfrolau fel sy'n digwydd yn hanes y mwyafrif ohonom.

Yn wir, pan ddaw'r amser i bwyso a mesur dylanwad neu gyfraniad gwahanol unigolion i fywyd a hanes y fro hon yn ail hanner yr ugeinfed ganrif a dau ddegawd cyntaf y ganrif hon, bydd John Elwyn Hughes ben ac ysgwydd uwchlaw'r mwyafrif. Cododd ei ddiwydrwydd a'i gynnyrch ef i lefel uwch na'r cyffredin a hynny'n gwbl haeddiannol. Bydd bwlch mawr iawn ar ei ôl."

# Llais Ogwan

## Rhif 539
Chwefror 2023


**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


### Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Walter a Menai Wiilliams**

Y golygydd ym mis **Mawrth** fydd
**Catrin Wager**,
Tŷ Mawr, Ffordd Coetmor,
Bethesda, LL57 3NF.
07366 418318
E-bost: catrinwager@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn**, **25 Chwefror** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu
**Nos Iau, 16 Mawrth**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW**: NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Chwefror**

| | |
|---|---|
| £30.00 (14) | Evelyn Lupson, Pensby. |
| £20.00 (53) | Rheinallt Puw, Pant, Bethesda. |
| £10.00 (43) | Lynda Pritchard, Rachub. |
| £5.00 (67) | Sheila V. Owen, Dolhelyg, Talybont. |

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

post@llaisogwan.com

## Dyddiadur y Dyffryn



**Chwefror**

22 Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid. Dafydd Fôn Williams. "Stad Coetmor – 1485-1855". Clwb Criced a Bowlio am 7.00.
22 Cwis. Tafarn y Siôr, Carneddi. 7.30. Trefnir gan Plaid Cymru.
24 Hogia'r Bonc. Noson o Adloniant. Clwb Criced a Bowlio Bethesda. Drysau ar agor 7.00
27 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
27 Te Bach yn festri Capel Carmel. 2.30 – 4.00.

**Mawrth**

1 Clwb Camera Dyffryn Ogwen yng nghwmni Alun Williams. Cefnfaes am 7.30.
1 Noson Goffi Trychineb Twrci/Syria.yn Festri Betlehem Talybont am 6.30.
5 Oedfa Gŵyl Ddewi Plant ac Ieuenctid. Capel Carmel Llanllechid am 10.30yb.
6 Merched y Wawr Tregarth. Dathlu Gŵyl Ddewi.
7 Mawrth - Cyfarfod Blynyddol Balchder Bro. Cefnfaes am 7.00.
9 Bwrlwm Bethlehem. Festri'r Capel . 2.00 – 4.00.
9 Y Gymdeithas. Festri Jerusalem am 7.00.
11 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
13 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
16 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
17 Cyf. Blynyddol Plaid Cymru D. Ogwen. Cefnfaes am 7.00. Gyda Siân Gwenllian AS.
25 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| **£30.00** | Er cof am J. O. Roberts oddi wrth Wendy, John a'r teulu, Garneddwen. |
| **£10.50** | Dennis a Ceri Dart, Rhos y Nant, Bethesda. |
| **£2.50** | Brenda Hughes, Arafa Don, Bethesda. |
| **£3.00** | Di-enw. |
| **£20.00** | Di-enw, Braichmelyn. |
| **£50.00** | Er cof am Y Dr J Elwyn Hughes oddi wrth Carole a Vincent Roberts. |
| **£2.50** | Di-enw |
| **£20.00** | I gofio am Eirlys Roberts, Cilfodan, a fu farw 10 Chwefror, 2016, oddi wrth Victor a'r teulu. |
| **£10.00** | Gwyneth Morris, Y Gerlan |
| **£15.00** | Annwen Hughes, Bryn Caseg, Bethesda." |

**Diolch yn fawr**

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

**(Hoffem ar ran y Panel Golygyddol ymddiheuro am yr amryfusedd sydd wedi bod yn ddiweddar parthed cynnwys newyddion Pentir yn y Llais – Gol.)**

**Brysiwch wella!**
Ein dymuniadau gorau i Linda Sammonds, Rhyd-y-Groes, sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Deallwn fod Linda yn gwneud cynnydd da a gobeithiwn ei gweld yn cyd-gerdded gyda Steve ar ein llwybrau yn fuan.

**Carolau cymunedol**
Diolch enfawr i bawb ddaeth allan ar noson oer iawn i ymuno yn y carolau ar Sgwâr Pentir. Roedd yn noson wych o ganu a sgwrsio gyda lluniaeth ysgafn a diodydd cynnes wedi eu paratoi.

Diolch i Cefin a Rhian am eu cefnlen Nadoligaidd oedd yn ychwanegu at naws yr Ŵyl. Cawsom arweinyddiaeth wych ran y gerddoriaeth gyda Cefin yn arwain a chyfeiliant ardderchog gan Annette Bryn.

**Eglwys St. Cedol, Pentir**
*Cofion*
Anfonwn ein cofion at Eirwen Williams, Rhiwlas sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Wrecsam. Gan ddymuno gwellhad buan i chi Eirwen.

*Te Bach Nadolig*
Prynhawn Mercher 14eg Rhagfyr cynhaliwyd Te Bach Nadoligaidd. Roedd yn brynhawn llwyddiannus a hwyliog gyda chynifer wedi troi allan ar ddiwrnod oer a rhewllyd. Enillydd gwobr gyntaf y raffl oedd Helen - derbyniodd hamper Nadolig yn rhoddedig gan JP Turner a'i ferched. Fe aeth yr ail wobr i Modlen Lynch, sef poinsettia, a'r drydedd wobr, sef cannwyll, i Eirwen. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.
Bydd y Te Bach nesaf yn cael ei gynnal brynhawn Mercher 1af Mawrth am 2 o'r gloch pan y cawn ddathlu dydd ein nawddsant. Mae croeso cynnes i chwi I ymuno gyda ni am baned a theisen yn ystod 2023.

*Hamper Misol*
Rydym yn cynnal Raffl Hamper Misol ar themâu gwahanol bob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys. Enillydd hamper mis Rhagfyr oedd Alison Jones, sef hamper Nadolig yn rhoddedig gan Alison Ellis. Fe aeth yr ail wobr, potel o wîn, i Nia Roberts.

Hoffem ddiolch i'r aelodau, eu teuluoedd a'r teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl. Hefyd, diolch i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn eu rhoddion o'r hamperi. Diolch o galon i chi i gyd am eich cefnogaeth drwy gydol 2022.

*Gwasanaethau*
Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb. Mae croeso cynnes i bawb I ymuno yn y gwasanaethau, gyda phaned a sgwrs i ddilyn.

*Manylion cyswllt*
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r Eglwys, cysylltwch gyda'r Parchedig Dr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521. Cofiwch fod Nia (Warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu am sgwrs.

## LLYTHYR

Sian Gwenllian
Aelod o'r Senedd dros Arfon
Senedd Cymru
8 Stryd y Castell,
Caernarfon,
Gwynedd. LL55 1SE
Sian.Gwenllian@senedd.cymru
01286 672076

20/01/2023

At sylw darllenwyr Llais Ogwan,
Dyma ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o gymhorthfa a gynhelir ar y cyd gan y Cyng. Beca Roberts a Sian Gwenllian AS yn Nhregarth ar 24 Mawrth 2023.

Mae cymorthfeydd yn gyfle i drafod materion lleol gyda chynrychiolwyr gwleidyddol.

Mae'n rhaid i'r sawl sy'n dymuno mynychu'r gymhorthfa gysylltu â'r swyddfa i drefnu o flaen law. Gallwch wneud hynny drwy anfon e-bost at sian.gwenllian@senedd.cymru neu drwy ffonio 01286 672076.

Cofion
Sian Gwenllian.

# Apêl Nadolig Plaid Cymru

Mae ASau Arfon, Siân Gwenllian a Hywel Williams wedi cynnal apêl Nadolig i godi arian ar gyfer wyth prosiect bwyd yn eu hetholaeth.

Mae'r arian a godwyd o Apêl Nadolig Plaid Cymru Arfon eleni yn cael ei roi i Fanc Bwyd Arfon, Caernarfon, Banc Bwyd Coed Mawr, Bwyd i Bawb Bangor, Cynllun Bwyd yr Orsaf, Penygroes, Porthi Dre, Caernarfon, Pantri Pesda, Bethesda, Cynllun Bwyd Cwm-y-glo a Llanrug a Banc Bwyd Eglwys Gadeiriol Bangor.

Heddiw, mae Aelod o'r Senedd ac Aelod Seneddol etholaeth Arfon wedi cyhoeddi eu bod nhw wedi rhagori ar eu targed gwreiddiol ac wedi llwyddo i godi £4,765, i'w rannu rhwng y prosiectau bwyd.

Yn ôl Siân Gwenllian:

"Mae hwn yn achlysur chwerwfelys. Ni ddylem fod mewn sefyllfa lle mae gennym ni 8 prosiect bwyd gwahanol wedi'u sefydlu'n weddol ddiweddar o fewn un etholaeth yn unig.

"Er hynny, dwi'n teimlo balchder mawr fod pobl Arfon wedi bod mor hael.

"Rydan ni wrth ein boddau ein bod wedi rhagori ar ein targed gwreiddiol, yn enwedig gan y bydd yr arian a godir yn cael ei rannu'n gyfartal â phrosiectau bwyd ym mhob cornel o'r etholaeth.

"Fel dw i wedi ei ddweud eisoes, dylai bodolaeth y prosiectau hyn godi cywilydd ar lywodraethau sydd wedi gorfodi blynyddoedd o lymder ariannol ar ein cymunedau.

"Ond hoffwn fynegi fy niolch diffuant i bawb a gyfrannodd at ein hapêl."




Ychwanegodd Hywel Williams AS, cynrychiolydd Arfon yn San Steffan:

"Rydyn ni'n gweld mwy a mwy o deuluoedd yn gorfod troi at fanciau bwyd lleol am gymorth oherwydd y cynnydd mewn costau byw.

"Mae costau bwyd a thanwydd cynyddol yn effeithio ar bob un ohonom, ond i deuluoedd ar yr incwm isaf mae'r argyfwng hwn gymaint yn waeth.

"Mae banciau bwyd a chynlluniau rhannu bwyd cymunedol ar draws Arfon yn achubiaeth i'r rhai sy'n cael trafferth ymdopi.

"Ac rydan ni'n ffodus iawn bod cymaint o bobl drugarog yma yn Arfon wedi ymateb mor hael i'n Hapêl Nadolig.

"Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd."

## Llandygái

**Iona Wyn Jones**, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
(01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

Dymuna Mrs Muriel Owen o'r Pentref ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, gofalwyr, ffrindiau a'r cymdogion yn dilyn llawdriniaeth clun yn ddiweddar.

### Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Cantorion o fri!**

Cafwyd profiad bendithiol ym Mhlygain yr Esgobaeth yn y Gadeirlan ar Ionawr 20fed wrth wrando ar garolau Cymreig traddodiadol. Ymysg y grwpiau ac unigolion yn cyfrannu o wahanol eglwysi yr oedd Geraint ein organydd, Gareth ein Ficer a Catrin o St Cross. Roedd lleisiau'r tri yn plethu'n hyfryd! Llongyfarchiadau iddynt.

**Raffl Santes Dwynwen**

Erbyn diwedd mis Chwefror, bydd enillydd lwcus Raffl Santes Dwynwen wedi mwynhau cynnwys potel o siampên! Diolch i bawb sy'n dal i werthu ac wedi prynu y tocynnau. Mae amser o hyd i chi ymgeisio am y siampên, - y dyddiad cau yw'r 26ain o'r mis!

**Gwasanaethau a Manylion Cyswllt**

**Ar y Sul**

Fel arfer mae'r gwasanaethau am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis, ac i gadarnhau hyn a gwasanaethau dros y Garawys, gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**

Gwasanaeth 10.15, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis (sef 8fed a'r 22ain). Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn!

Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, - gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

post@llaisogwan.com

# Agoriad Swyddogol i Laethdy Gwyn

Mae'n debyg y bydd nifer o ddarllenwyr Llais Ogwan wedi sylwi ar newidiadau yn adeilad yr hen eglwys Gatholig ym Methesda. Carrie Rimes o gwmni caws Cosyn Cymru sydd y tu ôl i'r datblygiadau, yn gweddnewid yr adeilad gwag i fod yn ganolfan flaengar ar gyfer cynhyrchu caws - Llaethdy Gwyn.

Cychwynnodd y gwaith adnewyddu yn 2019 efo cynllun i newid y llawr gwaelod yn llaethdy, cyntedd gyda siop, ynghyd ag adeiladu gofod cymunedol ar y llawr cyntaf. Yn anffodus, oherwydd Cofid, Brexit a rhwystredigaethau eraill, mae'r gwaith wedi cymryd yn hwy na'r disgwyl, ond erbyn hyn mae Carrie'n paratoi ar gyfer agoriad swyddogol y Llaethdy a'r siop.

"Rwy'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cefnogi'r prosiect o'r dechrau - gormod o bobl i'w rhestru, ond dach chi'n gwybod pwy ydach chi," meddai.

"Dwi hefyd yn ddiolchgar i'r cymorth ariannol hael gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, fy chwaer a noddwyr amrywiol."

Fe gychwynnodd y diddordeb mewn caws yn ifanc iawn gan Carrie Rimes. Fel plentyn yn tyfu i fyny ar fferm, fe wnaeth hi arbrofi efo creu cawsiau gwahanol. Ymhen rhai blynyddoedd wedyn, ar ôl magu teulu, a gyrfa dros 24 mlynedd yn y maes cadwraeth, penderfynodd Carrie fynd amdani i gynhyrchu ei chaws ei hun.

Ar ôl cyfnod o wirfoddoli efo WWOOFing (World Wide Opportunities on Organic Farms) ar ffermydd gwahanol yn Ffrainc, lle dysgodd dduliau traddodiadol o wneud caws a dod i ddeall mwy am rysetiau lleol yno, aeth ati i gynhyrchu yma yhg Nghymru. Erbyn hyn, mae un o gawsiau Cosyn, sef Brefu Bach, yn cael ei allforio i Ffrainc, ac wedi derbyn adborth cadarnhaol.

"I mi, yr hyn sy'n fy mhlesio'n fwy na dim yw gallu gweithio gyda chynhyrchwyr lleol, graddfa fach, dwysedd isel, sy'n poeni cymaint am yr amgylchedd a lles anifeiliaid â mi," ychwanegodd Carrie.

"Rydym yn ceisio creu system lle gall cymunedau gwledig ffynnu, gan barhau i fod yn economaidd hyfyw wrth gadw effaith yn isel."

Ar ôl cyrraedd yn ôl i Gymru yn 2015, treuliodd Carrie amser yn gweithio efo'r Ganolfan Technoleg Bwyd yn Llangefni a rhannu llaethdy efo Menai Wyn Jones, sy'n cynhyrchu caws Môn Las yn Rhoscefnhir. Er mai dros dro yr oedd y trefniant hwn i fod, oherwydd oedi efo Llaethdy Gwyn, fe barhaodd y denantiaeth 6 blynedd!

Ond rwan mae Cosyn yn addasu i fywyd yn ei gartref newydd yn Llaethdy Gwyn, mewn da bryd ar gyfer llaeth y gwanwyn. Mae cyflenwad da eisoes o'r iogwrt llaeth defaid poblogaidd, ac mae Carrie yn gwerthu'r cawsiau llaeth aeddfed Olwyn a Chwaral a gafodd eu gwneud yn heulwen yr haf diwethaf. Yn fuan iawn, gyda lwc, bydd caws Brefu Bach a aned ym Methesda ar gael!

**Yn dilyn noson agored lwyddiannus iawn cyn y Nadolig, pryd y daeth tyrfa fawr i gefnogi, i ddathlu agoriad swyddogol, bydd Cosyn a Chadwyn Ogwen yn cynnal digwyddiad ddydd Gwener, 10 Mawrth yn Llaethdy Gwyn. Dewch yn llu rhwng 5 ac 8 ar gyfer caws, stondinau cynhyrchwyr lleol a hyd yn oed ychydig bach o gerddoriaeth. Croeso cynnes i bawb.**



## OGWEN TERRACE, BETHESDA

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

gan Andre Lomozik

Rhan 5



**3 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

Llyfrwerthwr oedd yn byw yn rhif 3 Ogwen Terrace yng nghyfrifiad 1871. Gŵr yn enedigol o Ddwygyfylchi oedd **Robert Jones**, a'i wraig Mary wedi ei geni yn Northop. Roedd brawd Robert, sef Moses Jones, yn byw gyda hwy hefyd. Gŵr sengl oedd Moses ac yn rhwymwr llyfrau yn ôl ei alwedigaeth. Roedd gwas a morwyn yn byw yno hefyd, sef Robert Owen yn brentis argraffwr, ac Annie Jones yn enedigol o Lanllechid.

Roedd Robert Jones, ei frawd Moses, ac Elin eu chwaer, wedi ymgartrefu ym Methesda o Ddwygyfylchi. Cyn 1851 roeddynt yn byw yn rhif 49 Stryd Fawr, yn ôl y cyfrifiad, ac mae'n bosib mai Robert oedd preswylydd cyntaf 3 Ogwen Terrace.

Roedd Robert Jones yn uchel ei barch ym Methesda, ac roedd wedi bod yn flaenor yn eglwys Bethesda ers tua 1837. Roedd hefyd wedi cyhoeddi amryw o lyfrau, yn eu mysg *Seren Ddydd, sef saith o Bregethau ar Etholedigaeth,* tua 1848, yn ogystal â llawer o bamffledi. Enillodd wobr yn Eisteddfod Merthyr 1856 ar ei draethawd 'Main Law'. Dywedodd y beirniad - 'Traethawd cryno, bywiog, a thra huawdl ydyw hwn, yn cymryd sylw ar braidd yr holl faterion, y rhai a osodir i lawr gan Bwyllgor y Cynghrair, fel y pethau angenrheidiol yn y traethawd a ofynnent.'

Enillodd wobr arall yn Eisteddfod Pwllheli 1875. Cawn yr adroddiad yma yn *Y Gwladgarwr*, Medi 3, 1875. 'Beirniadaeth Silvan Evans, ar draethawd, yn Gymraeg neu Saesneg, ar y "Casgliad gorau o lyfrgelloedd, ysgrifau, a llyfrau Cymreig" - gwobr o 10 gini a medal arian.

Dyfarnwyd y rhan ariannol o'r wobr i Mr Robert Jones, Llyfrwerthwr, Bethesda.'

Bu'n bregethwr cynorthwyol gyda'r Annibynwyr am oddeutu deugain mlynedd, a gelwid amdano i lanw prif bulpudau y Gogledd, a byddai yn neilltuol o boblogaidd yn mhob man.

Yn rhifyn Tachwedd 1877 o'r *Goleuad*, cawn yr adroddiad yma:-

Tachwedd 10. 1877

MARWOLAETH A CHLADDEDIGAETH Mr. ROBERT JONES, LLYFRWERTHWR, BETHESDA. Bu yr hynod Robert Jones farw nos Iau y 1af cyfisol, yn ei breswylfod, 3 Ogwen Terrace, Bethesda, ar ôl misoedd o gystudd trwm. Yr oedd yn adnabyddus drwy Gymru yn gyffredinol fel llyfrwerthwr, awdur a phregethwr cynorthwyol gyda'r Annibynwyr. Brodor o Ddwygyfylchi oedd, a daeth i'r ardal hon ers 40 mlynedd yn ôl. Bu am dymor yn flaenor yn eglwys Bethesda, ac oddeutu y flwyddyn 1837 y cafodd ei godi yn bregethwr gan yr eglwys. Yr oedd erbyn hyn yn un o fasnachwyr hynaf yr ardal. Ceir hanes ei gladdedigaeth yn ein rhifyn nesaf.

Mae hefyd adroddiad ar y 14eg o Dachwedd 1877, t.14 yn *Baner ac Amserau Cymru* yn sôn am farwolaeth Robert Jones.

Marwolaeth a Chladdedigaeth Mr ROBERT JONES, Llyfrwerthwr, Bethesda. Bu Mr Jones farw fel y crybwyllwyd yr wythnos o'r blaen, Tachwedd 1af. Cafodd ei hun yn ei ystafell wely am bum mis, a dioddefodd ei gystudd yn hollol dawel. Ni chrybwyllodd gymaint ag unwaith am y siop na'r llyfrau wrth ei annwyl frawd. Gwasanaethwyd yn hynod o ofalus arno ar hyd y tymor gan ei annwyl briod Mrs Jones. Yr oedd yn hynod o adnabyddus drwy Gymru fel llyfrwerthwr, argraffydd, ac awdur amryw lyfrau, a dadleuwr mawr.

Adwaenid ef am dymor maith dan y ffug-enw "Cyrus". Bu yn pregethu gyda'r Annibynwyr am o ddeutu deugain mlynedd. Yr oedd yn gorfod ymadael o Bethesda, ar ôl bod yma am dros ddeugain mlynedd, gan fod ei dŷ wedi ei werthu, ac yr oeddynt fel teulu wedi cymryd tŷ i fynd iddo yn Penmaenmawr; ond cyn symud, cafodd ef ei hebrwng gan dorf o'i hen gyd-ardalwyr i dŷ ei hir gartref i fynwent Glanogwen, yn 66 mlwydd oed.

Dydd Mawrth, daeth torf o'r ardalwyr ynghyd; ac am hanner awr wedi dau, aed i Gapel Bethesda. Ar ôl canu emyn, a darllen rhan o'r Ysgrythur, gan y Parch R. S. Williams, gweinidog y lle, dywedodd ein bod wedi dyfod i dalu y gymwynas olaf i'n brawd ymadawedig. Yr oedd yn chwith gennym feddwl hyn; ond dyma y gymwynas orau a allwn wneud iddo yn awr. "Cleddir y marw allan o'm golwg". Da gennyf weled cymaint wedi dyfod o wahanol rannau o'r wlad i ddangos y fath barch iddo.

Y Parch T. Roberts (M) Jerusalem (un o brif gyfeillion Mr Jones, ac un oedd wedi dymuno arno gymryd rhan yn y gwasanaeth), a ddywedodd mai pleser, er mai galarus meddwl ein bod wedi colli Robert Jones, yw gennyf gael dwedyd gair am y brawd; i'e *brawd* ddwedaf finnau, a'r cyfaill a'r cymydog caredig sydd wedi ei gymryd oddi wrthym, a dwyn tystiolaeth i'r hawddgarwch, tiriondeb, a charedigrwydd a dderbyniais oddi ar ei law. Nid oes eisiau esgusawd dros i un o enwad arall siarad yma heddiw – dim ond bod yn un o'r ardalwyr. Yr oedd Robert Jones yn ddyn yn perthyn i'r wlad, a hynny mewn cylch nad oes ond ychydig iawn yn gallu bod felly. Nis gall neb, rywfodd, feddwl am Bethesda heb feddwl am Robert Jones hefyd; y mae rhai dynion felly. Dywedir ar awdurdod uchel:- y bydd rai am oesau yn aelodau o senedd Prydain Fawr, am yr areithiau, y gwrhydri, etc. a wnaethant yno. Bydd tymor maith cyn yr aiff Robert Jones yn angof gan yr ardal hon a'r wlad. Y mae rhai dynion yn tybied na fyddent yn ddoeth heb ddyfod â ffaeleddau dynion i'r golwg ar adeg fel hyn. Gair da yw hwnnw – "Am y marw dim ond da;" ac y mae llawer o dda i'w ddywed am dano ef. Y mae lle gwag mawr heddiw yn llenyddiaeth a llyfryddiaeth Cymru. Y mae llawer o lyfrwerthwyr a chyhoeddwyr – nid wyf yn dweud dim yn isel am danynt- na wyddent fawr am lenyddiaeth; ond yr oedd Robert Jones yn gwybod, yn teimlo, ac yn gwneud llawer o hen lyfrau y Cymry; i'e gallai fynd atynt ar y silff, a gwyddai beth oedd yn eu cilfachau oll. Hefyd nid yn unig yr oedd yn gwybod am lyfrau, ond yr oedd yn gwneud llawer hefyd. Dywedir mae un o arwyddion athrylith yw, gallu i gymryd llawer o drafferth gyda pethau. Gwaith oedd yn gofyn llawer o allu, a meddwl annibynnol da, ymchwiliad dyfal, oedd gwneud *Mynegair Ysgrythol* – y cyflawnaf yn yr iaith. Da gennyf ei fod wedi gallu ei orphen, er ei fod heb ei gyhoeddi. Yr oedd ei ddaliadau crefyddol yn dangos barn annibynnol iawn. Un o'r adnodau diweddaf a ddywedodd oedd "Crist mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol."

(i'w barhau)

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Capel Carmel**
***Gwasanaethau (am 5 o'r gloch)***
Chwefror 19: Oedfa.
Chwefror 26: Y Gweinidog.
Mawrth 5: Y Gweinidog (Cymun).
Mawrth 12: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Mawrth 19: Parchg. Sara Roberts.

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur bob nos Wener am 6.30yh.

CROESO CYNNES I BAWB

**Capel Carmel**
Bu gwasanaeth angladd Mrs Margaret Bryn ar yr ugeinfed o Ionawr yng Ngharmel ac yn dilyn yn yr Amlosgfa ym Mangor. Roedd y gwasanaeth o dan ofal ein gweinidog, y Parch. John Pritchard. Bu Margaret yn aelod ffyddlon a gweithgar a bu'n drysorydd yr eglwys am flynyddoedd. Roedd yn athrawes yn yr Ysgol Sul am bron i ddeugain mlynedd, yn ymroi i weithgareddau'r Chwiorydd, y Clwb Gwau a'r Te Bach. Mi fydd yn chwith mawr ar ei hôl. Cydymdeimlwn gydag Alis, Siwan a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Bu farw tad Mr Stephen Rees, Bron Arfon, sef Mr Euros Rees. Cynhaliwyd ei angladd ddiwedd mis Ionawr yn Ne Cymru. Mae aelodau Carmel yn anfon ein cydymdeimlad at ei briod Nanette, a Stephen, Siân a Gwydion yn eu profedigaeth.

Mae Mr Thomas Jones Rhos y Coed wedi dod adref o'r ysbyty ac yn teimlo ychydig yn well erbyn hyn. Mae Miss Deila Griffiths, Betws y Coed wedi symud o Ysbyty Llandudno i Gartref Nyrsio Bryn Marl yng Nghyffordd Llandudno.

**Clwb Dwylo Prysur**
Dyma gasgliad o waith llaw yr aelodau y misoedd diwethaf yma. Ar hyn o bryd maent yn peintio patrymau amrywiol ar ganfas. Maent yn dod i'r clwb i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol, cymdeithasu a chael paned ar y diwedd cyn mynd adref.

Mae Mrs Helen Williams yn awyddus i ddiolch i'r ieuenctid [ddoe a heddiw] am eu rhodd annisgwyl iddi. Derbyniodd rodd hael iawn, ynghyd â siocled a thusw mawr o flodau prydferth a hynny ar ddiwedd Gwasanaeth Nadolig yr ifanc. Dywed ei bod hi yn fraint ac yn hwyl i fod efo aelodau'r Clwb bob nos Wener. Diolch unwaith eto iddynt.


Y bobl ifanc yn y gwasanaeth Nadolig.

**Diolch**
Dymuna Tegwen a Geraint Northam ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur colli eu tad Godfrey.

Roedd yn galonogol clywed gymaint o bobl yn mynegu eu diolch am y gwaith a wnaeth o i helpu'r ardal dros yr hanner canrif diwethaf. Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i anfon cerdyn neu ddweud gair neu ddau, ac i Partneriaeth Ogwen am eu cymorth yn ystod ei salwch.

Diolch hefyd i bawb a oedd yn gallu mynychu ei wasanaeth angladdol yng Nghapel Carmel. Diolch i Mrs. Helen Williams, y Parchedig Dafydd Coetmor Williams a'r Parchedig John Pritchard am gymryd gofal o'r gwasanaeth, a Gareth Williams am drefniadau'r angladd, a Wayne Eccles, am y te angladd yng Nghlwb Rygbi Bethesda.

Diolch i bawb roddodd yn hael i Cymorth Cristnogol Cymru er cof am Godfrey.


Math gyda'r gwaith llaw.

# Cynllun ar gael i helpu pobl Gwynedd i brynu tŷ ar y farchnad agored

Mae Cyngor Gwynedd, mewn partneriaeth gyda Tai Teg a Llywodraeth Cymru, yn cynnig cynllun rhannu ecwiti i helpu pobl gymwys ar draws Gwynedd i brynu tŷ ar y farchnad agored.

O dan Gynllun Prynu Cartref Gwynedd:
- Mae ymgeiswyr cymwys yn gallu benthyca rhwng 10% a 50% o werth y cartref maen nhw am ei brynu
- Bydd angen iddyn nhw fod ag incwm aelwyd o lai na £60,000
- Gallant brynu eiddo gwerth uchafswm o £300,000 (yn ddibynnol ar asesiad ariannol).

Cyn ei lansio ym Medi 2022, roedd y Cynllun Prynu Cartref eisoes ar gael yn genedlaethol, ond estynnodd Cyngor Gwynedd y cynllun blaenorol drwy gyfuno arian o'r Premiwm Treth Ail Gartrefi ac arian gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau sy'n wynebu prynwyr tai yng Ngwynedd, mae gwerth £13 miliwn o fenthyciadau ecwiti wedi cael ei neilltuo er mwyn i'r cynllun fod ar gael i fwy fyth o drigolion y sir.

**Beth yw Cynllun Prynu Cartref Gwynedd?** Cynllun i unigolion a theuluoedd sy'n cael trafferth fforddio prynu cartref addas ar y farchnad agored, yw Cynllun Prynu Cartref Gwynedd. Mae'r nifer o bobl sy'n cael eu prisio allan o'r farchnad yn uchel, ac mae'r cynllun yn ymgais i gynnig cymorth i'r bobl hynny.

Gellir benthyg y gwahaniaeth rhwng pris eiddo a'r hyn y gall darpar brynwyr ei gynnig ar ffurf morgais a blaendal. Er enghraifft, pe byddai unigolyn cymwys eisiau prynu eiddo gwerth £200,000, ac mae ganddynt flaendal o £10,000 (5%), ac yn gallu cael morgais o £150,000, gall Cyngor Gwynedd fenthyca £40,000 iddynt er mwyn eu galluogi i brynu'r eiddo.

Pan mae'r amser yn dod i werthu'r cartref, mae'n rhaid ad-dalu canran y benthyciad ar sail ei werth presennol, ac ar yr adeg honno bydd angen prisiad annibynnol ar yr eiddo.

Mae hyn yn rhan o Gynllun Gweithredu Tai ehangach gwerth £77 miliwn gan Gyngor Gwynedd, sy'n cynnwys dros 30 o gynlluniau fydd yn darparu 1,500 o gartrefi o safon i bobl y sSir dros y pedair blynedd nesaf.

I wybod mwy am y Cynllun Prynu Cartref Gwynedd, ewch i wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/prynucartref

I wirio a ydych yn gymwys, ewch i wefan Tai Teg: http://www.taiteg.org.uk/cy/am-i-eligible-to-apply

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Llwyddiant**
Erbyn hyn, mae aelod arall o deulu Casey wedi ennill yr hawl i fynd â cherbyd ar y lôn. Pasiodd Chloe, modryb Danny, ei phrawf gyrru yng nghanol mis Ionawr. Llongyfarchiadau cynnes iti, Chloe, a dymuniadau gorau am flynyddoedd o yrru'n ddiogel.

**Cyfarchion penblwydd**
Dymuniadau gorau i Marilyn Jones, 78 Bro Emrys, a ddathlodd ben-blwydd arbennig ar Ionawr 24ain. Dymunwn bob bendith iti, Marilyn , a iechyd da i'r dyfodol.

**Brysiwch wella !**
Syrthiodd Joy, Llwyn Onn, Aberogwen, ar y rhew yn ystod y sbel oer yn Ionawr, a thorri ei ffêr yn ddrwg. Brysia wella, Joy! Gŵyr llawer ohonom y fath gloffrwm yw torri asgwrn, ond gobeithio na fyddi'n hir cyn gallu cerdded gystal âg erioed.

Cafodd Linda, Sŵn y Nant Maesygroes, ei galw i'r Ysbyty yn syth o flaen y Nadolig i gael triniaeth y bu'n disgwyl amdani ers peth amser. Erbyn hyn, mae'r cyfan y tu ôl iddi. Mae hi'n gwella'n dda ac yn falch iawn iddi ateb yr alwad, er gwaetha'r anhwylustod ar y pryd.

**Profedigaeth**
Ar nos Calan, yn dilyn misoedd o waeledd, bu farw John Draper, 70 Bro Emrys, yn 86 mlwydd oed. Yr oedd yn ŵr annwyl i Eirlys ac yn dad gofalgar i Belinda. Cynhaliwyd ei wasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Mercher, Ionawr 18ed. Estynnwn gydymdeimlad dwys at y teulu yn eu colled a'u galar.

**Diolchiadau**
*Ifan Wyn Jones, Dolhelyg*
Dymuna Barbara, Anna, a Laura ddiolch yn ddiffuant am y cydymdeimlad a chefnogaeth a brofwyd ganddynt pan fu farw Ifan; gŵr, tad a thaid annwyl.

Diolch o galon am yr ymweliadau caredig a'r galwadau ffôn, am y cardiau lu a'r blodau hardd, ac am y rhoddion hael tuag at Gronfa 'Beics Ogwen'. Casglwyd £850.

Mi fuasai Ifan yn falch iawn o feddwl bod cymaint o arian er côf amdano yn mynd at brosiect seiclo arloesol yn y Dyffryn.

Diolch hefyd i Gareth Williams, Ymgymerwr, am ei empathi a'i ofal cyn, ac ar ôl yr angladd.

**Capel Bethlehem**
*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Chwefror 19: Mr. D. Glyn Williams
Chwefror 26: Y Gweinidog
Mawrth 05: Parchg. Dafydd Job.
Mawrth 12: Y Gweinidog. (Cymun).
Mawrth 19: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Mawrth 26: Y Gweinidog.

Croeso cynnes i bawb.

## Eglwys St Cross

***Gwasanaethau*** - bob yn ail Sul am 11 o'r gloch.

***Cydymdeimlad***
Estynnwn ein cydymdeimlad dwys at deulu Ifan Jones, Dôl Helyg, a fu farw ddiwedd mis Rhagfyr yng Nghartref Nyrsio Ceris Newydd. Ers peth amser, roeddem wedi colli ei weld o gwmpas ar gefn beic neu yn cerdded ar y lonydd cefn, yn stopio i gael sgwrs efo ffrindiau.

Rydym hefyd yn cydymdeimlo yr un mor ddiffuant efo teulu Gary Casey, Cae Gwigin, yntau a fu farw ddechrau mis Rhagfyr.

Mae'n chwith ar ôl y ddau ohonynt, ac rydym yn meddwl am Barbara, Anna a Laura, a Sue a'i theulu yn eu tristwch, a'u cofio yn ein gweddïau.

***Anhwylder***
Dymunwn yn dda i bawb sy'n dioddef salwch neu unrhyw fath o drafferth, yn enwedig Ann Pritchard a'i theulu. Mae Ann yn cael gofal yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd. Da clywed ei bod hi'n cael dod adref ar y Sul o bryd i'w gilydd i fwynhau amser a chinio dydd Sul efo'i theulu.

***Gweithgareddau***
Rydym yn gobeithio ail-ddechrau y boreau coffi misol yn yr Ysgoldy yn y gwanwyn, efallai ym mis Mawrth, y dyddiad i'w gadarnhau. Rydym hefyd yn meddwl trefnu Te Mefus a garddwest fach yn yr hâf.

***Mynwent St Cross***
Mae pawb yn canmol pa mor daclus yw mynwent yr eglwys, sydd wrth gwrs yn agored i unrhyw un yn y plwyf, - sef y gymuned gyfan - ac i bobl sydd â chysylltiad â'r plwyf. Mae Tomas Shaw yn gwneud gwaith ardderchog i ni yn torri'r gwair rhwng a beddi a thocio'r llwyni, ond mae yn costio i ni gael gwneud hynny. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r sawl sy'n cyfrannu at y gwaith yn barod. Os hoffech chi roddi rhodd fach at yr achos, buasem yn ddiolchgar iawn; gofynnir i chi gysylltu â'r Ficer, y Parchedig Ddr Gareth Lloyd (01248 361521), neu Warden yr Eglwys, Catrin Hobson (07881 802882)

## Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor Cymuned ar Ionawr 12 fed.

Mae'r Cyngor Cymuned yn croesawu'r defnydd o'r enw 'Llyn Celanedd' neu 'Coed Llyn Celanedd' ar y llyn yng ngwarchodfa natur Aberogwen, ac yn cefnogi'r angen i warchod enwau Cymraeg.

Mynegwyd siom a rhwystedigaeth am analluogrwydd a diffyg Cyngor Sîr Gwynedd i ddarparu unrhyw adnodd ychwanegol i Ysgol Llanllechid i baratoi at y cynnydd a ddaw yn nifer y disgyblion yn sgîl datblygiad Cae Rhosydd. Galwodd y pwyllgor a'r Cynghorwyr lleol ar i'r Cyngor ymateb ar frys.

Adolygwyd gwariant y flwyddyn 2021-22 a phenderfynwyd codi'r praesept o 2%.

Marchnad Ogwen
Mawrth 11eg
9.30am - 1pm
Neuadd Ogwen
Bwydydd, Crefftau, Lleol
www.marchnadogwen.co.uk
facebook instagram

BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partïon ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
Gwasanaeth lleol, traddodiadol a dibynadwy
Sefydlwyd 1997 Perchennog: Derfel Owens

# Cofio Elwyn




**DAFYDD ROBERTS**

"Deuthum i'w adnabod yn gyntaf pan gyrhaeddais Ysgol Dyffryn Ogwen ar ddiwedd 1970. Fo oedd pennaeth Adran y Gymraeg yno, athro gofalus a chefnogol. Ond roedd yn weithgar mewn pob math o ffyrdd eraill, hefyd – cynhyrchu dramâu, trefnu Eisteddfod yr ysgol, a meithrin talentau lleol.

Gyda fy nheulu â diddordeb mewn hanes lleol, gwelais frwdfrydedd di-ben-draw Elwyn yn y maes hwnnw, hefyd, a'i barodrwydd i gasglu a diogelu pob math o adnoddau hanesyddol. Nid casglu er mwyn cuddio, ond yn hytrach casglu er mwyn rhannu efo trigolion y Dyffryn. Roedd ei ysgrifau taclus, eglur yn *Llais Ogwan* yn bleser i'w darllen.

Wedi i mi ddychwelyd i Ddyffryn Ogwen yn 1981, cefais y pleser o gyd-weithio efo Elwyn dros ddegawdau, a hynny ym myd hanes lleol.Bu'n aelod prysur o Gymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen o'r cychwyn cyntaf, yn barod iawn ar bob adeg i ddarlithio gerbron y Gymdeithas, a'i ddarlithoedd yn llawn i'r ymylon o'r lluniau, dogfennau, ffotograffau a'r mapiau oedd wedi eu casglu ganddo. Byddai popeth yn ei le, gyda'i wybodaeth drylwyr am bob agwedd o hanes yr ardal yn serennu drwy'r cyfan.

Priodol dros ben oedd penderfyniad y Gymdeithas Hanes, yn Chwefror 2022, i'w ethol yn Llywydd Anrhydeddus. Cefais hefyd y pleser o gyd-weithio efo fo fel aelod o'r pwyllgor lleol fu'n gyfrifol am osod coflechi ar gartrefi rhai o enwogion y Dyffryn. Unwaith eto, roedd ei wybodaeth ryfeddol am yr unigolion yma, eu cyflawniadau, a'u cyfraniad i'r Dyffryn, yn eglur i bawb ohonom.

Bydd Dyffryn Ogwen, a Chymru, yn gweld colli hanesydd penigamp, dyn oedd yn adnabod a charu ei fro. Rwy'n estyn fy nghydymdeimlad i Deilwen, Manon, Siôn, a gweddill ei deulu, yn eu profedigaeth anferth, ac yn diolch iddynt am eu cefnogaeth iddo. Roedd Elwyn yn falch dros ben ohonynt."

**JOHN LLYWELYN WILLIAMS**

"Roeddwn i'n ei nabod o'n dda iawn, yn arbennig yn y blynyddoedd pan ddois i'n ôl i Fangor a Dyffryn Ogwen. Mi fues i'n cydweithio llawer efo fo ym maes hanes lleol, ac roedd ei wybodaeth o'n arbennig iawn. Roedd o'n ddyn eithriadol dwt. Yn y swyddfa yn ei gartref, roedd popeth wedi cael ei gofnodi ar y silffoedd ac yn y blychau, a phob un wedi ei labelu efo'i gynnwys. Ac mi roedd ei holl waith yn eithriadol dwt. Roedd popeth roedd o'n ei wneud mor ofalus. Roedd o mor drwyadl a threfnus.

Mae hi'n golled fawr i Gymru. Does dim dwywaith fod ei gyfraniad yn un mawr iawn. Yr iaith oedd yn bwysig, a chywirdeb yr iaith, a'i waith enwog ar safon yr iaith yw'r llyfryn bach hylaw *Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu*. Ei lyfr pwysicaf, mae'n siŵr, ydi'r llyfr byrraf iddo ei sgrifennu erioed. Mae sawl fersiwn ohono wedi ymddangos, ac aeth y fersiwn diweddaraf i ddeuddeg argraffiad. Mae o wedi gwerthu dros 12,000 o gopïau. Yn ei erthygl ddiwethaf o yn *Y Faner Newydd*, mae ei ing yn dod allan am y camddefnydd o'r Gymraeg a'r geiriau Saesneg di-alw-amdanyn-nhw sy'n llithro i mewn i'n tafodiaith ni a'n sgwrs ni yn ddyddiol. Roedd hynny'n dân ar ei groen o. A dyna fo – mae o'n dwt yn fanno eto.

Peth arall efo Elwyn oedd mor ffyddlon oedd o i'w gyfeillion. Roedd o'n cysylltu efo cyfeillion oedd yn yr un dosbarth ag o yn yr ysgol, ac wedi gadael Bethesda, Ac roedd yna bobol ym Methesda yr oedd o'n ymweld â nhw yn wythnosol. Mi fyddai o'n dweud, "Mi o'n i ym Methesda ddoe, ac mi fues i'n edrych am 'hwn a hwn' neu 'hon a hon'."

I ni yn Nyffryn Ogwen, mi fydd ei golled o fel hanesydd lleol yn aruthrol. Dyn ei bobol oedd o, dyn ei ddyffryn, dyn ei ardal."

**NEVILLE HUGHES**

"Y tro diwethaf i mi siarad efo Elwyn oedd cyn y Nadolig. 'Roeddwn yn digwydd bod yn olygydd rhifyn Rhagfyr o'r Llais, ac yn sylwi nad oedd Elwyn wedi anfon ei golofn fisol, "Pwy sy'n cofio ddoe?" ataf. Clywais nad oedd wedi bod yn dda ei iechyd ac wedi gorfod treulio cyfnod yn yr ysbyty, ac felly 'doeddwn ni ddim am bwyso arno. Er mawr syndod, a llawenydd i mi, fe ffoniodd Elwyn yma i ymddiheuro'n llaes am fethu cynnwys ei golofn arferol "oherwydd anhwylder". 'Doedd o'n cwyno dim, ond am i mi gyfleu ei ddiolchiadau i bawb am yr holl alwadau ffôn a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod y cyfnod diwethaf.

Er y tristwch mawr i laweroedd ohonom o'i golli, mae'r atgofion amdano i'w trysori gennym oll. Cofio am ei gyfraniad aruthrol i Gymru a'r Gymraeg, wrth gwrs, ond mae gan lawer ohonom atgofion personol am ei gyfeillgarwch, ei gymwynasgarwch â'i weithgarwch dros y blynyddoedd.

Er i mi ei adnabod ers blynyddoedd lawer, deuthum i'w adnabod yn iawn, a'i barchu, yn bennaf drwy ei waith fel hanesydd lleol Dyffryn Ogwen, boed hynny drwy ddarllen ei ysgrifau neu wrando ar ei ddarlithoedd. Ond yn bennaf oll drwy gyd-weithio ag ef fel aelod o Bwyllgor Coflechi Enwogion Dyffryn Ogwen, sef criw o bump ohonom ddaeth at ei gilydd yn 2010 i drefnu gosod 14 o blaciau llechen ar gartrefi rhai o enwogion llên y dyffryn.

Elwyn oedd ein cadeirydd ac yn gwbl allweddol i lwyddiant y prosiect hwnnw. Roedd ei wybodaeth yn amhrisiadwy wrth i ni fynd ati i ddewis yr enwogion, a chadarnhau lleoliad eu cartrefi.

Mae'r gair 'trylwyr' yn cynnig ei hun i mi wrth feddwl am waith ac arweiniad Elwyn. Roedd mor drylwyr efo pob agwedd o'r cynllun cyn i ni gael y maen i'r wal ymhen rhyw ddwy flynedd. Bu'n drylwyr – yn ei drafodaeth gyda'r chwarel a barodd iddynt gyflwyno'r coflechi yn rhodd i ni. Trylwyr – yn trefnu pob arysgrif oedd i fynd arnynt. Trylwyr – wrth olygu a threfnu i gyhoeddi'r llyfryn *Rhai o Enwogion Lên Dyffryn Ogwen*. Trylwyr – yn paratoi cyfarfod i lansio'r llyfryn yn Neuadd Ogwen yn Ionawr 2013. Trylwyr – yn trefnu gwerthiant y llyfryn yn ehangach. Trylwyr – yn trefnu taith bws o gwmpas cartrefi'r enwogion. Yn wir, daeth yn hollol amlwg i mi fod Elwyn yn ddyn oedd o ddifri' ynglŷn â phopeth oedd yn ei wneud, ac yn mwynhau hynny. Roedd ei frwdfrydedd dros rannu hanes lleol yn heintus ac yn ysgogi eraill i fwynhau a dysgu mwy am eu bro. Bydd colled enfawr a chwithdod ar ei ôl!

Gallaf ddweud, â llaw ar fy nghalon, mai braint i mi oedd cyd-weithio gyda chyfaill mor dwymgalon dros fro ei febyd ag Elwyn!"

**ANDRÉ LOMOJIK**

"Rydw i'n ddyledus iawn i Elwyn. Roedd yna gysylltiad teuluol rhyngom, ac mi gymrodd o ddiddordeb ynof. Y cyfle cyntaf ges i i gyd-weithio efo fo oedd cael gwahoddiad tua chanol yr 1970au, efo nifer o rai eraill o'r ardal, i Lys Eurgain, ei gartref ym Mraichmelyn, i drafod ei syniad o sefydlu Cymdeithas Hanes leol – un a fyddai'n cyfarfod gyda'r nos yn llyfrgell Ysgol Dyffryn Ogwen. Cydsyniwyd yn frwd â'i weledigaeth, ac ymhlith y siaradwyr gwadd cafwyd yr Athro Idris Foster a T.M. Bassett yn ogystal â Nicholas Roberts ar amaethyddiaeth, Hedd Alaw ar gerddoriaeth, ac Amwel Pritchard ar hanes Chwarel Bryn Hafod y Wern.

I Elwyn y mae'r diolch fod fy niddordeb mewn hanes lleol wedi datblygu. Awgrymodd fy mod i'n dechrau casglu deunyddiau am Ddyffryn Ogwen – taflenni, rhaglenni cyfarfodydd a chymdeithasau, posteri digwyddiadau, ac ati. Hefyd, gwahoddwyd fi i fod yn aelod o grŵp i weithredu mewn prosiect arall gan Elwyn, sef tynnu lluniau o gapeli'r fro. Fo hefyd a'm rhoddodd ar ben ffordd i lunio mynegai i *Llais Ogwan*.

Profiad hyfryd arall oedd cyd-weithio efo fo i ymchwilio i hanes Canolfan Gymdeithasol y Cefnfaes i'w gyhoeddi'n llyfr yn 2007 pryd y cafwyd arddangosfa a noson lansio."

**LOWRI ROBERTS**

"Bu'n brifathro arnaf yn Nyffryn Ogwen ymhell cyn defnyddio'r term 'pennaeth'. A dyna oedd o yn y pen draw, prif-athro. Mae ei gefnogaeth , ei gymorth a'i arweiniad wedi bod yn ddiflino gydol fy ngyrfa fel athrawes, a mawr yw fy niolch iddo

Am ruddin ei ymroddiad,
Am roi i'r Iaith ei mawrhad."

**[Diolch i Ieuan Wyn am gaslu'r atgofion hyn at ei gilydd.]**

# YSGOL LLANLLECHID

**Blwyddyn Newydd Dda!**

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd oddi wrthym yn Ysgol Llanllechid!

Blwyddyn Newydd Dda i chi
Ac i bawb sydd yn y tŷ
Dyma yw'n dymuniad ni
Blwyddyn Newydd Dda i chi!

Bu rhai o'n plant ieuengaf yn mynd o amgylch yr ysgol gyda'u calennig ac yn gwrando ar storiau'r Fari Lwyd ac yn dysgu am yr Hen Galan - yn werth eu clywed!

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Ms Rhiannon Williams ar ddod yn nain. Ganed hogyn bach i Guto a Phoebie, ac rydym oll wrth ein boddau yn clywed y newyddion hapus. Gobeithio y cawn gyfarfod Joel bach yn fuan! Llongyfarchiadau gwresog!

**Diolch o Galon**

Llawer iawn o ddiolch i drigolion Maes Bleddyn am y rhodd o £250 i Ysgol Llanllechid er côf am Mrs Elinor Jones. Rydym yn wirioneddol werthfawrogi eich rhodd garedig er côf am wraig arbennig.

**Y Welsh Whisperer**

Llawer o ddiolch i'r Welsh Whisperer am ddod draw atom ni hefyd! Cafwyd diwrnod bendigedig yn sgriptio, creu a pherfformio yn ei gwmni, ac mae'r cynnyrch terfynol, sef y gân a gyfansoddwyd, yn werth i'w chlywed. Yn wir, mae hi'n anthem! Diolch o galon!

**Wyt Ionawr Yn Oer**

Bu'r ysgol ar gau oherwydd y rhew a'r eira am un diwrnod, gan fod campws yr ysgol ac allt Bryn Bela mor llithrig!

**Ysgolion y Dalgylch**

Braf yw dod at ein gilydd fel ysgolion i gydweithio ar ffyrdd o ddatblygu'r iaith Gymraeg yn ein hysgolion. Braf yw'r cydweithio a'r trafod, a diolch i Ysgol Dyffryn Ogwen am y croeso!



**Santes Dwynwen**

Cafwyd cyfle i ddathlu ein Santes Cyfeillgarwch a Chariad – Dwynwen, yn ôl ein harfer. Braf nodi hefyd fod amryw o'n disgyblion wedi bod draw yn Ynys Llanddwyn yn gweld adfeilion yr hen eglwys hynafol.

**Ardal Tu Allan**

Er fod yr hin wedi bod yn oer a gwlyb, bu'r plant bach yn lapio fel nionod ac yn mynd allan i ymwneud â phob math o weithgareddau difyr. A'r uchafbwynt? Y Siocled Poeth!



## Marchnad Ogwen

Cynhelir y farchnad nesaf yn neuadd Ogwen ddydd Sadwrn, Mawrth 11, rhwng 9.30 ac 1.00.
Am fwy o fanylion, cysylltwch a Janet Jones:
**ysgrifennydd@marchnadogwen.co.uk**


**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106*
*Porthaethwy (01248) 719517*
*Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616*
*Pwllheli (01758) 703000*

## Gair neu ddau – John Pritchard

# NA, DIM!

A hithau bellach yn fis Chwefror, dwi'n mawr obeithio – os ydych chi'n gorfod llenwi'r ffurflen dreth flynyddol – eich bod wedi gwneud hynny mewn pryd erbyn dydd olaf Ionawr. Fel arall, gall fod dirwy o £100 yn eich aros, a byddai dirwy bellach eto pe na fyddech yn llenwi'r ffurflen am dri mis arall. Ar ben hynny wedyn byddai rhaid talu llog ar unrhyw daliadau treth hwyr. Ia, gobeithio'ch bod wedi dod i ben â'r gwaith o lenwi'r ffurflen.

Nid methu â llenwi'r ffurflenni mewn pryd oedd problem Nadhim Zahawi ond rhywbeth a ddisgrifir gan yr awdurdodau treth fel 'blerwch' neu 'fethiant i gymryd gofal rhesymol' wrth wneud hynny. Pwy a ŵyr beth yn union oedd y 'methiant' hwnnw na faint yn union oedd y gosb ariannol yn achos Mr Zahawi? Embaras llwyr i'r Llywodraeth oedd bod CThEM (HMRC) yn ymchwilio i faterion treth Mr Zahawi ac yn ei ddirwyo ac yntau ar y pryd yn Ganghellor y Trysorlys. Erbyn hyn, mae Mr Zahawi, a benodwyd yn ddiweddarach yn Gadeirydd y Blaid Geidwadol, wedi ei ddiswyddo gan y Prif Weinidog Rishi Zunak am iddo dorri Cod y Gweinidogion trwy beidio â datgelu bod CThEM yn ymchwilio i'w faterion treth.

Gydol yr amser y bu materion treth Mr Zahawi yn hawlio penawdau'r papurau newydd a'r bwletinau newyddion, bu'r dyn ei hun yn gwbl gyson a diedifar. Bu'n drwm ei lach ar ohebwyr a fu'n adrodd y stori, a mynnodd fwy nag unwaith nad oedd sail o gwbl i'r haeriad iddo dderbyn unrhyw gosb gan CThEM. A hyd yn oed wedi iddo gael ei ddiswyddo yn dilyn adroddiad y Cynghorydd Annibynnol a benodwyd gan y Prif Weinidog, ni chafwyd ganddo air o ymddiheuriad na hyd yn oed gydnabyddiaeth o'r gwir. Y cyfan a gafwyd ganddo yn ei lythyr at y Prif Weinidog yn dilyn ei ddiswyddiad oedd clod iddo'i hun am ei gyfraniad at waith y Llywodraeth a beirniadaeth bellach o'r Wasg am ei hymdriniaeth ohono.

A bod yn onest, mae'n anodd iawn i neb gydymdeimlo â miliwnydd o wleidydd amlwg a wnaeth lanast o'i ffurflen dreth. Ond oni fyddai gwneud hynny rywfaint yn haws pe gwelid ynddo neu pe clywid oddi wrtho'r awgrym lleiaf o ymddiheuriad am yr agwedd drahaus a ddangosodd at bawb a feiddiai drafod y mater a'r datganiadau anonest (yn ôl adroddiad y Cynghorydd Annibynnol) a wnaed ganddo? Ar un olwg, mae Mr Zahawi a ninnau'n byw ar blanedau gwahanol. Pwy ohonom all ddychmygu bil treth o filiynau o bunnoedd? Ac eto, yr un yw ein byd, ac y mae Mr Zahawi yn ei drahauster, ac yn ddiarwybod iddo'i hun, yn dweud rhywbeth gwerthfawr wrthym am onestrwydd a geirwiredd a pharodrwydd i gydnabod bai. Oherwydd beth bynnag y drosedd, mae'n fil gwaith haws i eraill gydymdeimlo â ni a maddau i ni pan welant ynom barodrwydd i gydnabod bai ac ymddiheuro. Ac onid dyna hefyd y mae Duw yn ei ofyn oddi wrthym? 'Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac felly fe faddeua inni ein pechodau, a'n glanhau o bob anghyfiawnder. Os dywedwn nad ydym wedi pechu, yr ydym yn ei wneud ef yn gelwyddog, ac nid yw ei air ef ynom ni' (1 Ioan 1:9-10).

# YSGOL LLANDYGAI




### Dosbarth Enfys

Deinosoriaid ydi thema'r tymor yma yn Nosbarth Enfys (Meithrin a Derbyn). Mae'r plant wrthi yn brysur ar hyn o bryd yn adeiladu model o ddeinosor wedi ei greu allan o ddeunyddiau gwastraff. Maent hefyd yn dysgu am wahanol ddeinosoriaid - beth oedd eu maint a beth oedden nhw yn ei fwyta. Mae llawer o ddawnsio a symud fel deinosoriaid hefyd yn digwydd.

### Dosbarth Gwawr

Thema'r dosbarth y tymor yma ydi Dreigiau a Chestyll Cymru. Rydan ni wedi darganfod wy gyda llythyr yn gofyn i ni edrych ar ei ôl gan *Fflam y Ddraig*.



### Dosbarth 'tu allan'

Mae'r dosbarth newydd yn yr ardal tu allan bellach yn ei le gyda phob dosbarth yn awyddus i'w ddefnyddio ym mhob tywydd!

Hyd yma mae'r disgyblion wedi ysgrifennu cerdd yn disgrifio beth all fod yn cuddio yn nyth y ddraig a byddwn yn dysgu sgript sut i ddal draig sydd yn annog geirfa orchmynnol. Hefyd, rydan ni wedi cael reid ar gefn draig ac wedi edrych i lawr ar yr ardal leol - yn darganfod adeiladau a nodweddion naturiol. Gwyliwch allan yn y rhifyn nesaf am fwy o hanesion am yr wy...

### Ffarwelio

Gyda chalon drom rydym yn ffarwelio gyda dwy aelod o staff.

Diolchwn i Mrs Rhian Richardson sydd wedi bod efo ni ers mis Medi. Bydd colled fawr ar ei hôl fel athrawes garedig, ymroddedig a phroffesiynol.

Mae Mrs Jenny Alty hefyd yn ein gadael am iddi dderbyn swydd athrawes mewn ysgol arall. Hoffem ei llongyfarch hi ar ei swydd a diolch iddi am ei chyfraniad gwerthfawr yn ystod ei chyfnod yma yn Ysgol Llandygai.

Dymunwn yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol gyda diolch am eu gwaith diflino.

### Dawns i Bawb

Bu disgyblion flwyddyn 5 a 6 yn ffodus i gael arbenigedd Lauren o Ddawns i Bawb am hanner tymor i greu dawns greadigol am y gofod. Cafodd y disgyblion lawer o fwynhad yn bod yn greadigol a chafwyd perfformiad terfynol arbennig ganddynt.

## Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

**Pen-blwydd hapus!**

Pen-blwydd hapus arbennig iawn i Jen Morris Fferm Tangarth. 'Roedd Jen yn 50 oed ar y 30ain o Ionawr. Gobeithio bod Richard a'r plant wedi dy sbwylio a bod rhywun wedi gwneud cacen i chdi am unwaith (er y bydd yn anodd cael un cystal ag un o dy gacennau di!).

Mae Jen yn ddigon lwcus i rannu ei phen-blwydd arbennig gyda'i ffrind arbennig, Iona Rhys o Fynydd Llandygai sydd hefyd yn 50. Mae hyn yn ddigon o esgus am glamp o ddathliad!

**Brysia Wella**


Bu'n rhaid i Caleb Rhys, Rallt Isaf, gael llawdriniaeth brys yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Cofion cynhesaf atat Caleb, a dymunwn wellhad buan iawn iti.

### Gwersi Rygbi

Mae plant blwyddyn 5 a 6 wedi mwynhau eu sesiynau rygbi gyda Matt Baston. Er gwaethaf y tywydd oer roedd pawb wrth eu boddau y tu allan yn dysgu sgiliau newydd bob wythnos. Diolch yn fawr am eich amser.

### Arbed ynni

Diolch i Ianto o Bartneriaeth Ogwen am ddod draw i'r Ysgol i ddosbarthu pecynnau ynni i'r disgyblion a'r rhieni ac am y wybodaeth am sut i fod yn fwy ynni- effeithiol.



# Gadael Byd y Theatr

Ar ôl bron i 40 mlynedd yn Theatr Bara Caws, a blynyddoedd yn Theatr Cymru a Theatr Gwynedd cyn hynny, fe benderfynodd Linda Brown ymddeol o'r diwedd. Mae hi wedi gweithio'n ddiflino am ddegawdau i fynd â sioeau a dramâu i bob cwr o Gymru a thu hwnt, gan ddenu cynulleidfaoedd o ddegau o filoedd dros y blynyddoedd. Mae'n wir dweud ei bod hi wedi gwneud ffrindiau arbennig ar draws y wlad, ac mae ganddi lyfr cyfeiriadau a fyddai'n gwneud unrhyw drefnydd yn genfigennus iawn. Cafodd sawl disgybl a myfyriwr gyfle i ddod ati am brofiad gwaith, ac mae llawer iawn o actorion, technegwyr a dramodwyr yn dweud na fyddent yn gweithio yn y maes onibai am ei hanogaeth, cefnogaeth a'r cyfle mae hi wedi ei roi iddynt.



Theatr Bara Caws ydi ei bywyd hi wedi bod, a Pete, a'r plant yn cael eu tynnu i bob math o lefydd difyr yn sgil ei gwaith hi. Dwi'n siŵr y byddai Linda'n cytuno bod gweithio ym myd y theatr wedi bod yn antur arbennig o liwgar ac yn fraint.

Fel mae'r rhan fwyaf ohonoch yn gwybod, tydi Linda byth yn brin o eiriau, ond 'roedd yn hollol fud pan gerddodd i mewn i'r Ganolfan Fusnes ym Mhrifysgol Bangor i gael cinio Dolig distaw, a gweld bod dros 100 o ffrindiau a theulu o bell ac agos yno i ddathlu efo hi. Cafodd noson arbennig o rannu straeon, sawl teyrnged a chân a 3 cacen!

Mae'r rhai ohonoch sy'n ei adnabod yn gwybod nad ydi'n un am eistedd yn llonydd a dw i ddim yn meddwl bod y gair "ymddeol" yn apelio ati'n llwyr. Felly, mae hi wedi bod yn lwcus iawn i gael swydd ran amser efo Dyffryn Gwyrdd ym Methesda fel Cyfaill Cymunedol, ac wedi cychwyn ar y gwaith yn barod. Mae hi wrth ei bodd yn cael gweithio yn ei hardal ei hun a chanolbwyntio ar gefnogi pobl o fewn y Dyffryn – rhywbeth sydd yn agos i'w chalon erioed.

Mwynha dy ymddeoliad (rhannol) Linda a phob lwc yn dy swydd newydd.





Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

(Darlith wyneb yn wyneb a rhithiol drwy gyfrwng Zoom)

**Nos Lun, 13 Mawrth, 2023**
**7.00**
**Gareth Llwyd**
**Arwr Anghofiedig a Gladstone y Chwarelwyr**
**William Hugh Williams, Arafon**

**(Darlith Goffa Rhiannon Rowlands a draddodir gan Ieuan Wyn)**

Wyneb yn wyneb: Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda.
Cofrestrwch efo **garethllwyd197@btinternet.com**

Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo **bethan@ogwen.org**

Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun, Mawrth 13eg, ar yr hwyraf os gwelwch yn dda

Cost darlithoedd unigol = £2.00

**CARNIFAL BETHESDA**
yn cyflwyno
**Noson o Adloniant**
yng nghwmni

## HOGIA'R BONC

**Nos Wener, 24 Chwefror**
CLWB CRICED A BOWLIO BETHESDA
Drysau ar agor am 7.00yh
**TOCYNNAU :** £5.00

## CWIS

**Tafarn y Siôr**
**Nos Fercher, 22 Chwefror**
**am 7.30yh**
£1.00 y pen
*Trefnir gan Blaid Cymru Dyffryn Ogwen*

**CANOLFAN CEFNFAES**

## Gyrfa Chwist

Chwefror 28
Mawrth 14 a 28
am 7 o'r gloch.
Croeso i bawb

## LLAETHDY GWYN

**Agoriad Swyddogol**
**Dydd Gwener, 10 Mawrth**
**5.00 – 8.00**
Cyfle i weld y Llaethdy a phrynu caws a nwyddau CADWYN OGWEN
hefyd
CERDDORIAETH FYW



## DYDDIADUR BOREAU COFFI

**2023**
**25 Mawrth** – Cefnfaes – Plaid Cymru Dyffryn Ogwen
**01 Ebrill** – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
**13 Mai** – Cefnfaes – Cymorth Cristnogol
**08 Gorffennaf** – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
**16 Medi** – Cefnfaes – Plaid Cymru Dyffryn Ogwen
**14 Hydref** – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

**Pwysig**
*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.*
*Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*



**EGLWYS UNEDIG BETHESDA**



**Y GYMDEITHAS**

## Dathlu Gŵyl Ddewi

Festri Jerusalem
Nos Iau, 9 Mawrth
am 7.00 o'r gloch

## Cyfarfod Blynyddol Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Canolfan Cefnfaes
**Nos Wener, 17 Mawrth**
**am 7.00yh**
Siaradwraig Wadd:-
Sian Gwenllian A.S




**Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid yn y Clwb Criced**
Nos Fercher, 22 Chwefror
am 7 o'r gloch

**"Stad Coetmor – 1485-1855"**
**gan Dafydd Fôn Williams**

**CAPEL CARMEL LLANLLECHID**

## Oedfa Gŵyl Ddewi

yng nghwmni'r
**Plant a'r Ieuenctid**
**Bore Sul, 5 Mawrth am 10.30**
***Paned a Chacan Gri a chroeso cynnes i bawb***



## FESTRI CARMEL



Cynhelir
TE BACH
**Dydd Llun,**
**27 Chwefror**
2.30 – 4.00
Croeso i bawb.


**Owen's** Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr*
*Cludiant Preifat*
*a Bws Mini*



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

FESTRI BETHLEHEM
TALYBONT

## NOSON GOFFI

**Dydd Mercher, 1 Mawrth**
**am 6.30yh**
Mynediad £1.00.
Elw at Drychineb Twrci / Syria

CANOLFAN CEFNFAES

## Cyfarfod Blynyddol

## BALCHDER BRO

Nos Fawrth, 7 Mawrth
am 7.00yh.

## Mynydd Llandygai

**Pen-blwydd arbennig**
Pen-blwydd hapus i'r efeilliaid Nel Mai a Myfi Celyn, Cwm Hyfryd, Gefnan, ar ddathlu eu pen-blwydd yn ddeunaw oed ar Chwefror 8.

Dathlodd eu mam, Iona Rhys, ei phen-blwydd hithau, yn hanner cant, ar Ionawr 30. Dathlu mawr yn eich tŷ chi felly!

# Yr Her o'n blaenau

GAN ROB EVANS

Yn ddiweddar mae'r tywydd wedi bod yn gymysgedd o law, gwynt ac oerfel - amser i eistedd yn ôl a darllen llyfr. Dw i'n ddarllenwr brwd ac mae'r holl lyfrau dw i wedi'u darllen dros ddegawdau yn dal yma yn y tŷ. Pob hyn a hyn dw i'n pori trwyddyn nhw am un i ddarllen am yr eildro. Dw i newydd orffen, unwaith eto, llyfr T. Rowland Hughes - Y Cychwyn. Mae'r llyfr yn dweud hanes hen weinidog o un o ardaloedd chwarel y Gogledd.

Mae'n cychwyn efo Owen Ellis eisiau mynd efo'i dad a'i frodyr i'r chwarel, nid i weithio, ond i weld ei dad yn saethu'r graig. Roedd o'n mwynhau dilyn y dynion i fyny'r lôn hir a hwythau'n cael sbort yn tynnu coesau ei gilydd a chael hwyl. Ond cafodd ei dad ddamwain y bore hwnnw, a chollodd ei olwg. Doedd ei rieni ddim eisiau i Owen gael gwaith yn y chwarel - roedden nhw'n gobeithio cael rhywbeth gwell iddo, ond rhoddodd y ddamwain stop ar y gobaith hwnnw.

Mae'r stori wedyn yn rhoi darlun o'r cyfnod i ni, amser pan oedd cymunedau'n gryf a chrefydd yn bwysig. Cymunedau clos oedd yn edrych ar ôl eu hunain. Pawb yn 'nabod ei gilydd.

Mor wahanol i'n dyddiau ni. Mae'r syniad o gymunedau wedi hen diflannu. Ein heglwysi a'n capeli yn cau un ar ôl y llall, a phrinder pobl i gymryd cyfrifoldeb am ein cymdeithasau. Ein hiaith yn brin lle unwaith yr oedd yn byrlymu. Oes gobaith bellach neu waeth i ni heb eistedd yn ôl a disgwyl am yr anochel?

Does dim pwrpas ceisio canfod rhywun i'w feio - os ydym ni am i'r iaith dyfu unwaith eto mae'n rhaid i ni fod yn gyflym. Gwell anghofio am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, oherwydd 2031 yw'r flwyddyn bwysig, gan mai dyna pryd mae'r cyfrifiad nesaf.

Felly sut ydym ni'n mynd i wneud hyn, a dw i'n pwysleisio 'ni' achos mae rhaid i bob un wan Jac o'r Cymry Cymraeg chwarae ei ran? Os oes cymdeithas Gymraeg yn eich ardal a chwithau ddim yn aelod - ymunwch! Ydych chi'n ddigon lwcus i gael eglwys neu gapel Cymraeg yn eich ardal? Cymerwch ran! Yn y byd sydd ohoni mae angen y cyfeillgarwch a'r caredigrwydd sydd ynghlwm â nhw.

Mae hefyd angen mwy o bobl sy'n siarad Cymraeg, a hynny yn fuan iawn. Mae miloedd yn ein gwlad wedi penderfynu dysgu ein hiaith, a phob haf pan mae'r cyrsiau yn dod i ben, os nad ydyn nhw wedi cyrraedd y gymuned Gymraeg erbyn hynny, maen nhw ar goll i'r iaith, am byth.

Dw i wedi galw ar y Coleg Cenedlaethol, trwy lythyr yn Golwg, i gael neges trwy'r tiwtoriaid i annog dysgwyr i ffurfio grwpiau siarad ac i gyfarfod mewn caffi neu dafarn leol - rhywle lle gellir eu gweld a'u clywed. Os dowch chi ar eu traws ewch i siarad â nhw, byddwch yn garedig â nhw a helpwch nhw i fagu hyder. Gwnewch yn siŵr eubod nhw'n dod yn rhan o'ch cymuned. Mae'r angen ar y ddwy ochr!

Gwnewch hyn er mwyn i'n heniaith barhau!

# Er cof annwyl am Lillian Hughes

'Roedd colli Lillian yn dristwch **mawr** i ni i gyd yn ardal Bethesda. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r teulu i gyd - Irfon ei gŵr, ei phlant Nia ac Ian, ei hŵyr Gwion a'i hwyres Sioned a'r gor-wyrion a'r gorwyresau bach i gyd.


Fy nghof cyntaf i o Lillian oedd hi'n dod i'r Gerlan i fyw gydag Irfon ei gŵr (oedd hefyd yn gefnder i mi). Er mai yn Llanfairfechan y ganwyd a magwyd Lillian fe

setlodd i mewn yn hapus dros ben yng nghymuned y Gerlan. Roeddwn i bob amser yn meddwl pa mor brydferth oedd hi. Ac yn wir mi oedd hi'n brydferth – ar y tu allan a'r tu mewn. 'Roedd ganddi amser i bawb - 'roedd hi'n ffrind annwyl a thriw ac yna bob amser pan oedd angen ffrind i rannu gofidiau.

Bu'n weithgar dros ben yn y Gerlan yn trefnu gweithgareddau i godi arian at achosion da. Roedd hi'n ymwneud â'r Carnifal ac fe sylfaenodd Glwb y Mamau, a bu'n ysgrifennydd i'r Clwb am rai blynyddoedd. Bu hefyd yn ysgrifennydd 'Uned Mam a'i Phlentyn' Ysbyty Dewi Sant (Pwyllgor Bethesda) ac yn Is-Ysgrifenyddes 'Cylch Meithrin y Gerlan'. a bu'n weithgar gyda'r Bwrlwm Bro (ardal Gerlan). Cafodd y fraint o gael ei dewis i fod ar Fwrdd Rheolwyr yr ysgol newydd, sef Ysgol Abercaseg. Cafodd hefyd y syniad o godi arian at un achos da drwy godi milltir o ddarnau 50c, ac fe gyrhaeddodd y nod mewn dim!

Cafodd Lillian ei hethol yn gynghorydd Cymuned (Bethesda) yn cynrychioli ward y Gerlan ym 1976 a bu'n aelod o'r Cyngor am rai blynyddoedd - eto fyth yn gweithio'n galed dros ei chymuned a chynorthwyo pawb gyda gwên ar ei hwyneb bob amser. Bu hefyd yn Ynad Heddwch am rai blynyddoedd.

'Roedd Lillian wrth ei bodd pan gafodd hi



swydd yn y feddygfa ym Methesda ac roedd pawb o'r staff yn meddwl y byd ohoni. Fe weithiodd yn galed a chydwybodol tra bu hi yn y swydd.

Yn drist iawn fe gafodd Lillian afiechyd creulon ac fe gafodd amser anodd tu hwnt dros y misoedd diwethaf. Ond, er gwaethaf popeth 'roedd Lil yn gwenu drwy gydol ei salwch, a phob amser yn dweud ei bod yn ddiolchgar dros ben o'r bywyd hapus yr oedd hi wedi ei gael gyda'i theulu bach. Roedd hi'n berson dewr, cryf a phenderfynol i'r diwedd ac yn dal i wenu!

Bydd Lil (dyna oeddwn i yn ei galw bob amser) yn gadael bwlch enfawr ar ei hôl - person caredig, dymunol, gofalus, annwyl a chydwybodol, ac un o'r ffrindiau ffyddlonaf a gorau fyddai rhywun yn dymuno ei gael.

Cysga'n dawel Li - fyddi di byth yn angof.
**Linda Brown**

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

## Ffair Lyfrau a Chlwb Darllen Difyr

Cychwynnodd Clwb Darllen Difyr yr ysgol cyn y Nadolig, yn llawn bwrlwm a brwdfrydedd. Mae'r clwb yn cael ei gynnal bob amser cinio dydd Llun, o un tan hanner awr wedi yn ystafell H. Yn y clwb rydym yn cael cyfle i ddarllen, sgwrsio a phori mewn llyfrau diddorol o bob math. Rydym yn cael benthyg llyfrau hefyd er mwyn darllen adref, sy'n bwysig iawn yn fy marn i, oherwydd nid oes gan lawer o ddisgyblion lyfrau eu hunain er mwyn darllen yn bersonol.

Ar y pedwerydd ar hugain o Ionawr cawsom ymweliad gan Siop Na-nog, a fu'n cynnal ffair lyfrau yn yr ysgol ar gyfer y disgyblion, gyda gwledd o lyfrau difyr fel rhan o'r ymgyrch Caru Darllen Ysgolion. Roedd pawb wedi gwirioni yn derbyn tocyn llyfr gwerth saith bunt i wario ar unrhyw lyfr o'u dewis, - wel sôn am lwcus! Rydym ni i gyd yn edrych ymlaen i ymgolli yn ein nofelau newydd sbon! #CaruDarllen

*Justin Williams 10Glyder a Siwan Griffith 7Ogwen*



**Y disgyblion yn mwynhau'r Ffair Lyfrau**

## Adran Gelf

Roedd criw Celf TGAU Blwyddyn 10 Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddigon lwcus yn ddiweddar i gael bod yn rhai o'r cyntaf i weld arddangosfa ddiweddaraf Storiel ym Mangor, a hynny mewn gweithdy gyda'r artist lleol Glyn Price. Roedd cyfle iddynt sgwrsio ac ymateb i'r gwaith, sydd ar fenthyg o gasgliad Celf anferthol Prifysgol Bangor, gyda Glyn, cyn bwrw ymlaen efo creu ymatebion creadigol eu hunain yn y galeri. Mae'r criw wedi bwrw iddi i weithio ar y prosiect yn barod ar ôl dod yn ôl i'r dosbarth Celf, a bydd eu darnau terfynol yn cael eu harddangos ochr yn ochr â gwaith artistiaid Byd enwog yn Storiel ym Mis Mawrth.



**Disgyblion blwyddyn 10 yn canolbwyntio yn y gweithdy celf**

## Cystadleuaeth Traws Gwlad

Llongyfarchiadau i'r holl redwyr ar eu perfformiad yng nghystadleuaeth traws gwlad ysgolion Arfon mis diwethaf. Roedd nifer o berfformiadau cryf a phawb wedi dyfalbarhau ar gwrs heriol.




## Pêl Rwyd Blwyddyn 7/8

Er iddi fwrw eira'n drwm a'r ysgol wedi cau i'r mwyafrif o ddisgyblon, diolch i Mrs Durrell cafodd tîm pêl rwyd blwyddyn 7 ac 8 ddal gyfle gwych i gystadlu yn Nhwrnamaint Pêl rwyd yr Urdd. Hon oedd ein cystadleuaeth gyntaf fel tîm ac roeddem yn edrych ymlaen yn arw i fynd i Ganolfan Brailsford ym Mangor.




Cychwynnodd y gystadleuaeth yn wych i Ysgol Dyffryn Ogwen drwy ennill y gêm gyntaf 3 - 0, ond yn anffodus roedd y timau eraill yn fwy profiadol a cholli wnaethom wedyn. 'Rydym wedi dysgu llawer mwy am bêl rwyd a'r rheolau ar ôl y twrnamaint, ac yn gobeithio gwella ein perfformiad gydag arweiniad Mrs Durrell a Mrs Wallis ar gyfer y dyfodol. Gwerthfawr iawn oedd y profiad!

*Gwenno Beech, blwyddyn 7*

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts



### Cefnogi Wcráin




**Corau'n uno i gefnogi Wcráin** Mae dau gôr o Wynedd am uno yng Nghadeirlan Bangor i godi arian at achos Wcráin. Ar 4 Mawrth bydd Côr y Penrhyn yn cydganu gyda Chôr y Brythoniaid o Flaenau Ffestiniog mewn cyngerdd mawreddog a gynhelir yn y Gadeirlan ac mae'r corau'n ffyddiog y daw pobl Gwynedd, Conwy a Môn allan i gefnogi achos mor deilwng.

Rhan o ymgyrch gan y Pwyllgor Argyfyngau Brys (DEC) i Apêl Ddyngarol Wcráin yw'r digwyddiad hwn. Cydbwyllgor o bymtheg elusen yn cynnwys y Groes Goch, Oxfam ac Achub y Plant ydy'r Pwyllgor Argyfyngau. Erbyn i'r cyngerdd ddigwydd, bydd pobl Wcráin wedi dioddef dros flwyddyn o fomiau, taflegrau a ffrwydradau creulon a didostur. Does dim arwydd bod terfyn i greulonderau Rwsia tuag at ei chymydog.

**"Bwyd, dillad a gwres."** Dywedodd Wyn Roberts, Llanfairfechan, Cadeirydd Côr y Penrhyn, "Mae'n calonnau'n gwaedu dros bobl Wcráin ond hyderwn y bydd y cyngerdd hwn yn cyfrannu rhywfaint at leddfu eu poen "Bydd yr elw a wneir yn mynd at bethau fel talu am ddillad cynnes a chartrefi i'r ffoaduriaid," meddai Wyn, cyn ychwanegu, "bydd hefyd yn cyfrannu at brynu meddyginiaeth i'r rhai sydd wedi eu hanafu a phethau sylfaenol eraill fel bwyd a dŵr glân.

### Colli dau gyn aelod

***Glyn Pritchard***

Chwith yw cofnodi bod dau o gyn aelodau Côr y Penrhyn wedi marw'n ddiweddar. Bu Glyn Pritchard, Sling, neu Glyn Llety, farw yn ei chwedegau yn yr America'n ddiweddar. Aeth Glyn i America yn ŵr ifanc ond roedd o wedi gwneud ffrindiau â phawb yn y côr gan ei fod yn berchen natur fywiog a ffraeth. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth.

***Arfon Davies***

Bu farw Arfon Davies, o Fae Penrhyn yn 82 mlwydd oed. Tad Owain Arwel, arweinydd ein côr oedd Arfon a bu ei angladd yn yr amlosgfa a gwasanaeth coffa iddo yng Nghapel Seilo, Llandudno ar ddydd Gwener, 27 o Ionawr. Daeth tyrfa enfawr ac aelodau o dri chôr i'r gwasanaeth coffa a thalwyd teyrngedau iddo gan ei ddau fab ymhlith eraill. Yn gymharol ddiweddar y daeth Arfon yn aelod o'r côr ar ôl bod yn canu gyda Chôr Colwyn, Côr y Brythoniaid a Chôr Maelgwn cyn ymuno â'r tenoriaid cyntaf yng Nghôr y Penrhyn. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r holl deulu.

# Cymeriadau'r Côr

*(Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Dafydd Price o Gwm y Glo sy'n canu efo'r ail denoriaid.)*

**Be' ydy dy enw llawn?** R Dafydd Price.
**Oed?** (dewisol) – 78 +
**Gwaith** Wedi ymddeol
**Lle wyt ti'n byw?** Cwm y Glo
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Rhiwlas
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Person teulu, hoffi canu, helpu yn y gymuned.
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Ers tua pedair blynedd.
**Pa lais wyt ti?** Tenor 2.
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Wedi fy addysgu yn Ysgol Dyffryn Ogwen,a rhan helaeth o fy nheulu'n byw yn yr ardal. Efallai bydd rhai'n cofio Glyn Price- paentiwr yn y chwarel; John Hendry, Masnachwr glo yn yr ardal a Mary Johnson yn cadw siop Ffrancon House ym Mraichmelyn.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** 'Dagrau'



(Tears in Heaven) o waith Eric Clapton.
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Y diweddar anfarwol Elvis Presley.
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Dwi'n bur hoff o ganu pop y 70au pan oedd y geiriau yn golygu rhywbeth â neges ynddyn nhw.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Canu ar y maes cenedlaethol, Stadiwm y Principality cyn y gêm rygbi ryngwladol yn erbyn yr Ariannin. Bythgofiadwy!
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Dan ni wedi dechrau canu darnau ysgafnach pan dan ni'n diddori cynulleidfaoedd. Mae hynny'n beth da iawn.
**Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** Mi hoffwn weld mwy o feibion ifanc yr ardal yn ymuno er mwyn sicrhau dyfodol y côr a'i swyddogion.

**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Bowlio dan do – wedi cael y fraint o gynrychioli Cymru mewn gemau rhyngwladol. Hefyd, dwi wedi bod yn cynorthwyo'r Parch Wyn Roberts, sy'n diddanu fel Elvis, i godi arian at wahanol fudiadau.


J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

# YSGOL BODFEURIG

Blwyddyn newydd dda gan bawb yn Ysgol Bodfeurig. Mae mis Ionawr wedi bod yn fis tawelach yn yr ysgol na'r arfer ond rydym wedi llwyddo i gael llawer o hwyl a dysgu pethau newydd.





### Thema newydd

Gyda blwyddyn newydd mae pob dosbarth wedi dechrau dysgu am thema newydd. Thema dosbarth Idwal ydi 'Pobol sy'n ein helpu' ac maent wedi cael llawer o hwyl yn gwisgo i fyny a chwarae rôl fel pobl sy'n ein helpu yn ogystal â mwynhau gweithio yn y swyddfa bost. Mae dosbarth Ogwen yn edrych ar 'Gynefinoedd'. Maent wedi bod yn creu cynefinoedd delfryfdol, astudio mapiau a dysgu am gynefinoedd o gwmpas y byd.

### Ymweliad y Welsh Whisperer

Braf oedd cael croesawu hen ffrind i'r ysgol yn ôl atom, sef y Welsh Whisperer. Cafodd pawb ddiwrnod arbennig yn ei gwmni yn cydweithio i ysgrifennu cân am yr ysgol. Gweithiodd pawb yn galed iawn i ddysgu'r gân cyn perfformio o flaen eu rhieni ar ddiwedd y dydd. Mae pawb wedi gwirioni cymaint gyda'r gân maent am ei pherfformio eto yn ein gwasanaeth Gwyl Dewi. Diolch Welsh Whisperer, - braf cael eich cwmni yn ôl ym Modfeurig!





## Eglwys y Santes Fair, Gelli

Braf yw cael nodi ein bod yn cynnal gwasanaeth ar ddydd Sul am 9.30. y bore. Cynhelir Te Crempog ddydd Mawrth, Chwefror 21ain, a 1 o'r gloch y prynhawn.

## Cais am Wirfoddolwyr

Mae Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru yn chwilio am wirfoddolwyr i ddarllen Llais Ogwan a'i recordio ar CD.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Nick Thomas, Swyddog Datblygu CDGC: nick@nwsb.org.uk

Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru - 'Cefnogi pobl sy'n byw gyda cholli golwg'

Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru
North Wales Society of the Blind



# Iaith Pesda

gan Mary Jones

**Waliau**

Os ewch ar y wê ac i safle 'Hanes Dyffryn Ogwen' mi ddewch ar draws erthygl gan John Llywelyn Williams yn dwyn y teitl ''Waliau Dyffryn Ogwen". Mae wal yn ffordd effeithiol a naturiol o godi ffiniau rhwng tiriogaethau ond hefyd yn ffordd o greu caeau er mwyn tyfu cnydau a chadw anifeiliaid draw. Waliau cerrig sy'n arferol yma yn Nyffryn Ogwen, a elwir yn aml yn 'waliau sych'. Defnyddir cerrig o bob maint a'u plethu i'w gilydd er mwyn creu wal gadarn heb fath o fortar na sment i'w dal at ei gilydd. Crefft sydd yn dal i barhau yn y dyffryn heddiw.

Ceir waliau o gwmpas y dyffryn hefyd wedi eu hadeiladu o ddarnau mawr o lechi, fel wal Felin Fawr ac ar Lôn Dinas. Defnyddir llechi wrth gwrs ar ochrau llwybrau, sef pileri, ac mae llawer o 'lwybrau p'leri' yn yr ardal. Sylwer mai 'crawiau' ydynt mewn ambell i ardal chwarelyddol arall.

Beth am y gair 'clawdd', ydy clawdd yn wahanol i 'wal'? Hoffwn yn arw glywed gennych, ac am unrhyw air arall yn gysylltiedig. A gaf i hefyd eich hannog i droi at safle Hanes Dyffryn Ogwen, sy'n llawn erthyglau difyr a darllenadwy am hanes ein bro.



**Tywydd**

Ia, dyma ni eto yn ôl efo'r tywydd, ond gan bod y gaeaf wedi cyrraedd, diddorol ydi'r termau a'r dywediadau sydd gynnon ni am dywydd garw- gwynt, eira a rhew.

"Eira mân, eira mawr" medda ni pan fo hi'n dechrau bwrw eira a'r plu eira yn fân, ac mae'n arwydd bod eira trwm ar y ffordd. Pan fydd y tymheredd yn syrthio'n go isel, mi ddwedwn ni ei bod yn "rhewi'n galed" neu yn "rhewi'n gorn" (hynny ydi yn galed fel corn buwch neu faharen), a bod lôn neu lyn yn 'blyman o rew'. Ystyr 'plymen' ydy haenan neu dalp o rew. A phan fydd yr oerfel yn cydio mi ddwedwn ni "Mae hi'n gafael." Mae nifer o eiriau am eira a rhew yn toddi, sef 'meirioli', 'dadalith' 'dadmer', neu 'dadmar' fel y dywedwn yn lleol.

Pan fo storm ar fin cyrraedd mi ddwedwn "Mae hi'n hel terfysg." A phan ddaw, yna "Ew, mae hi wedi troi'n egar!" Pan fo gwynt yn taro eich wyneb yn finiog yna dywedir "Mae'r gwynt 'ma'n fain"; cawn hefyd "Mae'r gwynt 'ma'n sgyrlio" a "Mae'r gwynt 'ma fel cyllath." Clywais hefyd am 'wynt diog' sydd yn mynd drwy rhywun yn hytrach na mynd o'i gwmpas.

Mi roddodd 'gwynt' lawer o ymadroddion a dywediadau inni. Bydd 'gwynt' yn gallu golygu drewdod – ogla drwg/ ogla câs. Hefyd pan fydd rhyw helynt neu'i gilydd, a diflastod, bydd rhywun yn cynnig cysur drwy ddweud "Mi eith heibio fel, pob gwynt drwg." Os ydych yn falch o weld rhywun yn gadael yna yr ymadrodd ydi "Gwynt teg ar ei ôl o/ ei hôl hi." Disgrifir gwynt y dwyrain fel "gwynt traed y meirw" am ei fod o'r gwynt oeraf a'r ffaith fod traed corff mewn bedd Cristnogol tua'r dwyrain. "Mi gyrhaeddodd hi â'i gwynt yn ei dwrn" medda ni am rywun wedi dod ar râs wyllt.Un arall ydy "Mae o/ hi yn llawn o wynt' am berson balch, yn 'hen drwyn' (ffroen-uchel) neu'n brolio byth a hefyd.

**Ambell air ac ymadrodd**

Tolpan

Dyma i chi air da, - rydw i wrth fy modd efo fo ac am ryw reswm mae o'n codi gwên. Ydi o'n mynd allan o ffasiwn tybed! Mae'n debyg bod ambell i air am lwmpyn o bridd efo gwreiddiau, chwyn a gwair wedi ei dynnu o'r ddaear, ond 'tolpan' ydy hi i mi, a 'tholpia' neu 'tolpins' ydy llawer ohonyn nhw. Tywarchen ydy'r gair cywir mae'n debyg, ac yn air di-fai. Rwyf wedi clywed am 'torchan a 'thorchins' mewn ambell i ardal hefyd. Cofiaf fel plentyn i ni wneud argae ar draws afon fach Henbarc a phawb yn tyrchu am dolpan i'w defnyddio efo cerrig i atal y llif.



Ymadrodd a ddaeth i'm sylw oedd hwn: "tân, tân yn tŷ pawb ond tŷ ni." Tybed beth ydi gwraidd yr ymadrodd. Mae'n gwneud i mi feddwl fod rhywun yn ei ddweud yn ddigalon neu mewn trallod, yn dlawd efallai. Oes gan unrhyw un sylw?

Y diwrnod o'r blaen gofynnodd rhywun i mi ble'r oedd lle a'r lle, ac mi atebais "Ochr draw i'r afon. Doedd y person erioed wedi clywed yr ymadrodd cynt. Os ydy chi yn byw ar ochr yr A5 (Lôn Bost) ydych chi yn defnyddio'r geiriau i gyfeirio at yr ardal sydd yn wir yr ochr draw i'r afon a thybed a ydyw i wneud â ffiniau cynghorau?.

Diolch i chi fel arfer am eich sylwadau,a chofiwch anfon ataf: Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN maryeds@hotmail.co.uk 07443047642.


L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

PARTNERIAETH OGWEN

### Ysgogwyr Newid

Mae'n bleser cyhoeddi fod Sophie Howe, Comisiynydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cynnwys Meleri Davies a thîm Partneriaeth Ogwen ar restr 100 o Ysgogwyr Newid Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Cymru fel cenedl yn arwain y byd gyda'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), deddf sy'n ceisio gwarchod buddiannau ein plant a chenedlaethau'r dyfodol. Mae cael ein cynnwys ar y rhestr o 100 Ysgogydd Newid yn fraint i'r sefydliad ac yn gydnabyddiaeth genedlaethol o werth ein gwaith cymunedol. Nododd y Comisiynydd -

"Fel ysgogydd newid, rydych yn dangos beth sy'n digwydd pan fyddwn yn rhoi llesiant ar y brig, yn gweithio gyda'n gilydd ac yn ystyried effeithiau hirdymor ein gweithredoedd. Mae edrych ar ffactorau megis tlodi, natur, iechyd, addysg a sgiliau, cyflogaeth, trafnidiaeth, hinsawdd a thai mewn dull cyd-gysylltiedig yn golygu ein bod yn medru gweithredu yn awr ar gyfer gwell dyfodol. Mae eich gwaith yn gwneud y weledigaeth hon yn realiti, ac yn cyfrannu at lesiant yng Nghymru. Dylech fod yn teimlo'n falch o'r llwyddiant hwn gan wybod eich bod yn cyfrannu at fudiad sy'n tyfu."




### Swyddog Cynnal

Ymunodd Morgan Griffith efo'r tîm fis Ionawr fel Swyddog Cynnal. Bydd Morgan yn arwain gwaith o gasglu sbwriel a lleihau gwastraff o fewn dalgylch cynghorau cymuned Bethesda a Llandygai. Ariennir y swydd hon gyda chymorth y 2 gyngor cymuned ac mae Morgan, sy'n enedigol o Fynydd Llandygai ond rwan yn byw yn y Gerlan, yn edrych ymlaen yn arw i arwain y gwaith yma.

### Yr Hen Bost

Ar ôl cryn oedi, daeth cyhoeddiad gan Lywodraeth San Steffan fod cais 'Llewyrch o'r Llechi' Cyngor Gwynedd wedi llwyddo. Mae'r cais yn golygu cefnogaeth ariannol i brosiectau penodol yn ardaloedd Blaenau Ffestiniog, Llanberis a Bethesda yn cynnwys buddsoddiad sylweddol yn natblygiad canolfan dreftadaeth Yr Hen Bost. Rydym yn parhau i aros am y llythyr cynnig ffurfiol ond mae hyn yn newyddion da iawn i'r ardal.

### Hwb Ogwen

Gyda cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd penodwyd Marie Hodson o Riwlas fel Rheolwr Hwb Ogwen a Lucinda Enston fel Swyddog Atal Tlodi. Bydd Hwb Ogwen yn tynnu nifer o wasanaethau ynghyd i gynnig cymorth i drigolion y Dyffryn. Bydd hyn yn cynnwys arwain Pantri Pesda, darparu cyngor ynni, sesiynau Cyngor ar Bopeth, Gwynedd Digidol a lawer mwy. Bydd Hwb Ogwen hefyd yn cynnal sesiynau Swper Chwarel i ddod a phobl ynghyd am damaid o fwyd a chymdeithasu yng Nghanolfan Cefnfaes. Cysylltwch a Marie ar 07561 648824 neu marie@ogwen.org am fwy o fanylion.

### Cyfaill Cymunedol

Yn ddiweddar dechreuodd Linda Brown o'r Gerlan ar ei swydd newydd gyda'r Dyffryn Gwyrdd sef 'Cyfaill Cymunedol'.

Mae Linda yn awyddus iawn i greu cysylltiadau gyda thrigolion hŷn y Dyffryn a chael dod i adnabod eu anghenion a hefyd i ledaenu'r wybodaeth am y cyfleusterau sydd yn bodoli yn Nyffryn Ogwen a'r cylch. Mae yna gyfle i bawb gymdeithasu a chael coffi a sgyrsiau yn Gorffwysfan bob pythefnos ar brynhawn Mawrth am 2.00 (hyd at 3.30) ac mae modd cael trafnidiaeth i'ch cludo i Gorffwysfan ac yn ôl i'ch cartref. Cysylltwch â Linda 07492 290041 neu cyfaill@ogwen.org am fwy o fanylion




### Rheolwr Prosiectau Cefnogi Economi Leol

Dechreuodd Robyn Meredydd fel Rheolwr Prosiectau Cefnogi Economi Leol gyda Phartneriaeth Ogwen yn ddiweddar. Mae Robyn yn gyfrifol am arwain prosiect Cadwyn Ogwen - sef platfform i gynhyrchwyr lleol werthu eu cynnyrch yn y Dyffryn. Mae hi hefyd yn rheoli datblygiad Gofod Gwneud a Gofod Cydweithio yng Nghanolfan Cefnfaes. Meddai Robyn

"Rwyf yn credu bydd yr adnoddau yma'n werthfawr iawn i'r ardal ac rwyf yn edrych ymlaen at weithio efo pobl leol i sicrhau bod ni'n cymryd mantais ohonyn nhw."

### Y Bws Gwennol

Mae'r bws gwennol yn dal ar gael ar gyfer grwpiau cymunedol cyn ail-ddechrau'r gwasanaeth sefydlog o Fethesda i Lyn Ogwen yn y gwanwyn. Mae wedi bod yn cludo trigolion ar gyfer p'nawniau coffi'n ddiweddar, teithiau siopa, a disgyblion ysgol i ddigwyddiadau a chlybiau chwaraeon. Cysylltwch ar 01248 602131 neu cludiant@ogwen.org am fanylion llogi.

### Garddio a Llesiant

Gyda'r gwanwyn ar y gorwel byddwn yn cynnal nifer o ddigwyddiadau dros yr wythnosau nesaf yn ymwneud â garddio, coed, natur a llesiant. Rydym ni bob amser yn hapus i groesawu pobl sydd eisiau ymuno! Mae gennym sawl peth ar y gweill, megis plannu coed gwrych o gwmpas y rhandiroedd yng Ngardd Ffrancon, adeiladu gwlau uchel a plannu coeden flodeuog efo Siân Gwenllian a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar 03/03/23. Yn ogystal byddwn yn rhoi trefn ar y llyfrgell blanhigion ar ben Stryd y Ffynnon, Gerlan, gan blannu coed ffrwythau, gorffen


SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

adeiladu meinciau ac yn y blaen.

Bydd ein sesiynau garddio cymunedol yn dechrau eto ddiwedd mis Chwefror, gyda gweithgareddau rheolaidd mewn nifer o lefydd cymunedol fel Llys Dafydd, Gardd Ffrancon,Gardd Tantŵr a Llyfrgell blanhigion Gerlan. Os oes gennych chi awydd cymryd rhan, cysylltwch â judith@ogwen.org.

**Teithiau cerdded 'Tyrd am dro yn dy fro'**. Mae 4 taith wedi bod, a heblaw un ar ôl noson rewllyd, wedi mynd yn dda, gyda phobl yn mwynhau'r cyfle i fynd am dro bach, - dim rhy anodd, dim mwy nag awr, ac amser i glebran yn y caffi. Pwrpas y teithiau ydi cynnig rhywbeth awyr agored sy'n gwneud lles ond ddim yn rhy gorfforol. Y rhai nesaf yw dydd Mercher 15 Chwefror, Pier a harbwr Bangor, a dydd Llun 6 Mawrth, promenad Llanfairfechan. Cychwyn am 11yb.

**Beics Ogwen**

Mae cyfnod prysur wedi bod ar ddechrau'r flwyddyn o ran hyfforddiant, gyda Megan Meeke wedi cynnal cyfres o weithdai yn arbennig i ferched, a'r rheiny wedi profi'n boblogaidd iawn. Yn dilyn y rhain bydd gweithdai mewn ysgolion, a pharhad gweithdy agored yng Nghefnfaes ar brynhawniau Gwener. Yn ogystal, mae datblygiadau posibl dros y mis neu ddau nesaf yn cynnwys sesiynau ar ôl ysgol ar ddydd Iau yn Llys Dafydd, gan ganolbwyntio ar lanhau beiciau, a'r gweithdy ar agor ar ddyddiau Sadwrn. Mae croeso cynnes i ddarllenwyr y Llais ymuno efo ni ar gyfer y rheiny!

Gyda'r gwanwyn ar y gorwel cofiwch fod gennym fflyd o feiciau trydan gwych acw a'r rheiny ar gael i'w llogi am gyn rhated a £20 y diwrnod. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth trwsio a retro-osod, gwerthu nwyddau a beiciau ail law, hyfforddiant a digwyddiadau, ac archebion ar gyfer grwpiau.

Mae Beics Ogwen hefyd wedi lansio gwasanaeth tanysgrifio am £6.99 y mis. Bydd hyn yn cefnogi ein nodau - i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwneud beicio yn hygyrch i bawb – mae tanysgrifwyr yn cael nifer o fanteision, sydd i'w gweld yma - https://beicsogwen.co.uk/donate/

Da ni hefyd yn ystyried 'gŵyl' beic ym mis Mai, ac yn agored i syniadau ac awgrymiadau.

# Nyth y Gân

## Y FFOS FYNYDDIG

Yno â'i sŵn ysblennydd hi reda
  Drwy rwydwaith mawnogydd;
Yno daw fel hyn bob dydd
O fannau'r uchel fynydd.



## COED Y GAEAF

Ni chlywir cân aderyn
Yn awr o frigau'r coed,
Eu deiliach gwyrdd a gollwyd
Wrth iddynt fynd i oed.

Mor llwm yn awr edrychant
Gan godi hiraeth mawr
O'u gweled hwy'n ddigalon
Yn wag uwchben y llawr.

Tawelwch sydd ym mhobman,
Ni ddaw i'n clyw 'run gân
I godi ein calonnau
O bigau'r adar mân.

## LLECHI

Gwaniwyd yr hen glogwyni drwy danio,
  Drwy dynnu eu meini,
A lloches dan do llechi
Sydd yn awr o fudd i ni.

**Dafydd Morris**


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Ymddeol**

Ymddeoliad hapus i Carys Parry, Glanogwen, wedi sawl blwyddyn o weithio yn Siop Londis, a chyn hynny yn Siop Spar.

**Ysbyty**

Cofion cynnes at bawb fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref ac yn gwella, yn eu plith Blodwen Cavanagh, Maes y Garnedd; Sulwen Lloyd, Maes y Garnedd a Rhiannon Efans, Ffordd Pant.

**Cydymdeimlo**

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr. a Mrs. Arwel Davies, Cerys, Elliw a Tomos, Ffordd Ffrydlas yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl ddydd Sul, 8 Ionawr, sef y diweddar Mr. Arfon Davies.

Cydymdeimlwn hefyd ag Ann a Kevin, Ffordd Garneddwen, yn eu profedigaeth o golli tad Ann yn ystod mis Ionawr.

**Marw**

*Bethan Wyn Jones-Puw*

Yn Ysbyty Gwynedd ar ddydd Nadolig 2022, bu farw Bethan Wyn Jones-Puw, Ffordd Ffrydlas, yn 54 mlwydd oed - merch annwyl y diweddar Elfed a Helen Jones. Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Mercher, 18 Ionawr, yn Amlosgfa Bangor, dan arweiniad y Parchedig Nerys Griffiths, gweinidog Capel Jerusalem. Mrs. Christine Edwards oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn ag aelodau o deulu Elfed a Helen, hefyd Andrew a Nicola yn Ynys Môn, ac Alwena a'r teulu yn Nhregarth.

*Llinos Jones*

Ar y cyntaf o Ionawr yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs. Llinos Jones, Ffordd yr Elen, yn 92 mlwydd oed - priod y diweddar Mr. Elwyn Jones, a mam hoffus i Arfon, Iola, Edgar a Siân. Roedd hefyd yn nain a hen nain annwyl. Bu'r gwasanaeth angladdol ar lan y bedd ym Mynwent Eglwys Coetmor ar ddydd Mawrth, 17 Ionawr. Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn eich profedigaeth.

*Siân Llechid Lewis*

Yn Ysbyty Gwynedd ar 4 Ionawr, bu farw Siân Llechid Lewis, 6 Maes Coetmor, yn 55 mlwydd oed - mam annwyl a hoffus i Ffion, chwaer i Kevin, a merch i'r diweddar Brian a Hazel Owen, Maes Coetmor. Bu'n gweithio ym Mhrifysgol Bangor ers sawl blwyddyn, ac mewn Banc cyn hynny. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Iau, 26 Ionawr yn Amlosgfa Bangor, gyda thyrfa fawr wedi ymgynnull i ffarwelio â Siân. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parchedig Dafydd Coetmor Williams. Anfonwn ein cydymdeimlad atat ti Ffion, a Kevin a'r teulu, yn eich profedigaeth fawr.

**Llongyfarch**

Llongyfarchiadau i DS Paul Griffiths, mab Tomos a Gwendaline Griffiths, Ffordd Ffrydlas, ar dderbyn y KPM (King's Police Medal) yn rhestr anrhydeddau'r flwyddyn newydd, am ei waith caled yn yr heddlu, yn benodol wrth gefnogi llygaid dystion a dioddefwyr anafiadau difrifol. Disgrifiwyd ef fel Swyddog Heddlu ardderchog, ac mae ei waith wedi cael effaith ar nifer fawr o bobl, yn y Deyrnas Unedig a thramor. Ar y funud mae'n byw yn Llundain gyda'i deulu, ac yn gweithio i Dîm Troseddau Rhyfel y Deyrnas Unedig, lle mae yn gyfrifol am nifer o achosion cymhleth a phwysig.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Nia Williams, Erw Las, sy'n cychwyn ar ei chyfnod fel capten merched Clwb Golff St Deiniol, Bangor. Pob hwyl Nia.

**Diolch**

Cafwyd sawl ateb i'r cwestiwn 'Pwy ydy'r arlunydd?' a chafwyd y wybodaeth mai'r diweddar Tom Hughes, oedd yn byw yn Ffordd Stesion, Bethesda, oedd y person dawnus ac a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor wedi i ffrindiau ddwyn perswâd arno i fentro mewn cystadleuaeth.

## DREIGIAU'R DYFFRYN

Llongyfarchiadau enfawr i'n henillwyr yn noson Gwobrau Gymnasteg Ardal y Gogledd 2022 yn Venue Cymru, Llandudno ar yr 21ain o Ionawr.

Ein henillwyr:
Molly de Silva- Hyfforddwr iau'r flwyddyn
Holly Owen- Y ferch sydd wedi gwella fwyaf
Morgan Williams- Y bachgen sydd wedi gwella fwyaf
Cari Davies - Hyfforddwr ifanc y flwyddyn
Havi McMurray - Gwirfoddolwr y flwyddyn
Alys Roberts - Gymnastwraig y flwyddyn
Owain Williams - Gymnastwr y flwyddyn
Tesni Davies - Gwobr cydnabyddiaeth gymnastwr
Erin Davies - Hyfforddwr y flwyddyn

Noson ffantastig gyda 14 o 15 o glybiau gymnasteg Gogledd Cymru yn bresennol. Roedd holl enillwyr ein gwobrau yn llwyr haeddu eu cydnabyddiaeth am eu gwaith caled a'u hymrwymiad yn 2022. Da iawn pawb!

Mae Dreigiau'r Dyffryn yn glwb gymnasteg llewyrchus wedi'i leoli ym Methesda, sy'n darparu sesiynau yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg i ferched a bechgyn o 3 oed ymlaen.



Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru •07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead Cyf**
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# Yr Eglwys Unedig

**Y Gymdeithas**
Nos Iau, Ionawr 12, cawsom sgwrs gan y Prifardd Ieuan Wyn am dranc tywysogion Gwynedd a'u plant. Clywsom fel y cymerwyd y baban amddifad, Gwenllian, merch Llywelyn ein Llyw Olaf, i leiandy yn Sempringham a'i chadw yno weddill ei bywyd heb gysylltiad â'i theulu, a heb syniad am ei thras na'i diwylliant.

Clywsom hefyd am ddiwedd erchyll Dafydd, a chaethiwo ei saith merch a'i ddau fab, a llofruddiaeth Rhodri ei frawd. Diddymwyd teulu tywysogion Gwynedd mewn un genhedlaeth ar orchymyn Edward 1.

'Roedd hon yn noson arbennig iawn. Fe gawsom storïwr sydd yn feistr ar ei grefft, yn cyflwyno mewn ffordd gofiadwy y cyfnod pwysig hwn yn ein hanes fel Cymry.

**Gwasanaeth Plygain**
Nos Sul, Ionawr 15, cynhaliwyd y gwasanaeth uchod yn y Festri. Daeth cynulleidfa deilwng iawn i wrando ar eitemau amrywiol gan y Parti Merched, Teulu Beti Rhys, Lowri a'r teulu, Hogia'r Bonc, a thriawd Gwilym Bowen Rhys, Elidyr Glyn a Gethin Griffith, ynghyd â chanu cynulleidfaol grymus. Yn dilyn canu Carol y Swper, mwynhawyd paned a bara brith, a gwnaethpwyd casgliad tuag at yr Achos. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i'r noson – hyfryd oedd cael cynnal y Blygain am y tro cyntaf ers tair blynedd!






**Hadau Cariad**
Dydd Gwener, Ionawr 27, cynhaliwyd cinio canol dydd, i godi arian at Apêl Honduras. Mae ein diolch yn fawr i Alwenna, Carol a Luned am drefnu popeth, a barn pob un a fynychodd oedd ein bod wedi cael gwledd. Casglwyd dros £300 tuag at yr Apêl.

**Marwolaeth**
Gyda thristwch mawr y clywsom am ymadawiad Mrs Elina Owen, gweddw ein diweddar weinidog, Y Parchedig John Owen. Dioddefodd Elina gystudd hir dros nifer o flynyddoedd, ond daliodd i fod yn ffyddlon dros ben i'n hoedfaon tra y gallodd, gan ymuno â ni trwy gyfrwng y ffôn i'r diwedd. Bu ei chyfraniad i'r Achos yn Jerusalem yn amhrisiadwy -gwraig gweinidog ddelfrydol yn wir. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at Mererid, Einir, Garmon a'u teuluoedd yn eu galar.

Gyda chwithdod y daeth y newydd am farwolaeth y Dr J Elwyn Hughes. Un o blant y Capel oedd Elwyn, ac er iddo symud i fyw i Fethel, bu'n ffyddlon dros ben i'r Eglwys, gan gyfrannu'n hael er cof am ei rieni yn flynyddol. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y plant, Gwyndaf, Garmon, Siôn a Manon, a'r teulu oll yn eu colled.

A'r Llais ar fin mynd i'r wasg, daeth y newyddion trist am farwolaeth John Ellis Jones, Fron Heulog, Sling, Tregarth, yn 93 oed. Yn frodor o Lanrwst, 'roedd yn briod annwyl i'r ddiweddar Ilse Renée, yn dad cariadaus i Angharad Wyn, Rhodri Caradog a Catrin Rhiannon, ac yn daid balch i Gruff Morgan. Bu'n gydweithiwr a mentor i sawl cenhedlaeth o haneswyr ac archeolegwyr Cymreig a rhyngwladol, ac 'roedd yn ysgolhaig, Cymro a chapelwr ffyddlon. Bydd colled ar ei ôl yma yn Jerusalem - byddai'n hoff iawn o ymuno yn y baned, a chael sgwrs wedi oedfa'r bore. Cynhelir gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel



Seion, Llanrwst ddydd Llun, Chwefror 20, am 2 o'r gloch y prynhawn.Blodau'r teulu yn unig, ond derbynnir rhoddion os dymunir i Age Cymru trwy law yr Ymgymerwr GL Jones, Llanrwst. (Ffôn: 01492 640600)

Cyhoeddiadau'r Sul
Gweinidog: Y Parchedig Nerys Griffiths
Chwefror 19: I'w drefnu
Chwefror 26: Mr Gwilym Williams (10)
Mawrth 5: Y Gweinidog (10)
Mawrth 12: Mr Richard Morris Jones (10)
Mawrth 19: Canon Idris Thomas (10)
Mawrth 26: Y Gweinidog (10)
Cofiwch ein bod yn dal i ddarlledu'r oedfa dros y ffôn bob Sul.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at y rhai sydd yn methu bod gyda ni yn yr oedfaon, beth bynnag fo'r rheswm. 'Rydym yn meddwl amdanoch, ac yn dymuno pob bendith i chwi.

Dyma ddau bennill o emyn Y Parchedig John Roberts fydd yn gysur i chwi, gobeithio:

Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr
Heb un cydymaith ar hyd llwybrau'r llawr,
Am law fy Ngheidwad y diolchaf i
Â'i gafael ynof, er nas gwelaf hi.

Pan fyddo beichiau bywyd yn trymhau
A blinder byd yn peri im lesgáu,
Gwn am y llaw a all fy nhgynnal i
Â'i gafael ynof, er nas gwelaf hi.


C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Llongyfarchiadau!**
... cynnes iawn i'n Hesgob Cynorthwyol, y Parchedig Mary Stallard, ar ei phenodiad yn Esgob Llandaf.  Bu Mary yn ffrind da iawn i eglwysi Bro Ogwen yn ystod cyfnod heriol y tair blynedd ddiwethaf, a dymunwn hapusrwydd a bendith iddi yn ei swydd newydd.

**Brysiwch wella!**
Daliwn i gofio am ein haelodau a'n hanwyliaid sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar, mewn ysbyty neu yn eu cartref, gan ddymuno gwellhad buan iddynt; cofiwch roi gwybodaeth os gwyddoch am unrhyw un sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun yn eu cartref

Enillwyr Clwb Cant mis Ionawr:
£40: Rhif 37 – Karen Williams
£20: 127 – Mrs Glenys Rowlands
£15: 13 – Ann Griffiths

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis am 7.30; croeso cynnes i bawb.

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, - gallwn alw amdanynt.

**Gwasanaethau**
Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi.
Croeso cynnes fel arfer i bawb i'n holl wasanaethau.


Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*


## Rhiwlas


**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)


**Cofio Catherine**
Catherine Elizabeth Hughes oedd ar y daflen ddydd Mawrth, Ionawr 17 ond i ni yn Rhiwlas roeddem yn ei hadnabod fel Catherine Refail. Bu'r teulu yn byw yn Refail Castell ond yna symud i Bro Rhiwen. Roedd Catherine yn un o wyth o blant  i Hannah a Richard Hughes - pump o fechgyn  a thair merch, ac roedd wedi goroesi Arwyn, Meredydd, Richard, Dafydd, Douglas , Hannah Mary a  Maureen. Braf oedd gweld fod rhai o'i nithoedd yn bresennol yn y gwasanaeth. Ymhen amser symudodd Catherine i Waunfawr ac ymgartrefu yno o dan adain yr Antur a daeth i fyw yn eithaf annibynnol. Bu'r gwasanaeth yn Eglwys Sant Garmon ym Metws Garmon, ac roedd nifer dda wedi troi allan ar ddiwrnod oer a rhewllyd. Y Parchedig Casi Jones oedd yn gwasanaethu a Gareth Jones wrth yr organ. Cawsom deyrnged i Catherine gan y Gweinidog, ac eglurodd sut y symudodd i Waunfawr, gan fyw yn y pentref ac yn hoff iawn o arddio - tyfu llysiau a blodau. Roedd uned arbennig ym Mangor  i helpu i gael gwaith i'r rhai oedd yn awyddus, a Menai, Penrhyn Teras gynt, yn un a oedd yn gweithio yno, ac  roedd Catherine yn awyddus a bu am gyfnod yn gweithio yng  nghartref Cerrig yr Afon. Roedd yn un chwim, ac wedi ennill gwobrau am redeg a nofio, a bu unwaith yn cystadlu yn yr unol Daleithiau a'r Iseldiroedd. Canmolwyd hefyd y modd yr oedd yn crosio, gyda sawl un wedi derbyn eitem ganddi. Cydymdeimlwn â'r teulu, y nithoedd a Linda, ei chyfnither. Rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent Betws Garmon.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn  ein cydymdeimlad at Humphrey ac Eunice Jones yn eu profedigaeth. Roedd gan Emyr Williams, tad Eunice, frawd a ymgartrefodd yn Sir Fôn, ac un o'i deulu ef oedd Macauley Owen, 26 oed, a fu farw drwy ddamwain ar fferm ym Môn. Fe'i cludwyd i Stoke, ond yn ofer, gwaetha'r modd.  Anfonwn ein cofion atoch fel teulu.

**Heb fod yn dda**
Mae Mrs Myra Jones bellach yng Nghartref Gwynfa yng Nghaernarfon am rai wythnosau - anfonwn ein dymuniadau gorau atoch. Hefyd rydym newydd glywed fod Gareth, 9, Bro Rhiwen yn yr Ysbyty ac yn bur wael. Anfonwn ein dymuniadau gorau ato.

**Diolch**
Roedd y nos Iau i gasglu'r Llais yn noson erchyll a'r ffyrdd yn beryglus. Diolch i Catherine, mam Gareth, am fentro ei ddanfon ef a Nia i gasglu'r Llais. Diolch i'r tri ohonoch.

## Glasinfryn a Chaerhun


**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com


**Cylch Glasinfryn**
Treuliwyd prynhawn difyr iawn ar 11 Ionawr yn y Ganolfan yng nghwmni Anwen Thomas. Mae Anwen yn Adweithydd (Reflexologist) gyda chlinig yng Nghaernarfon. Ar hyn o bryd hi yw'r unig Adweithydd sydd yn siarad Cymraeg. Rhoddodd gyflwyniad hynod ddiddorol trwy gymorth "Power Point" ar beth yw Adweitheg a sut y mae yn cysylltu â gwahanol adrannau o'r corff. Mae hi yn gweithio gyda phlant ac oedolion, ac un arbenigedd sydd ganddi yw gweithio gyda phlant ag anghenion arbennig. Gorffennodd ei chyflwyniad drwy ddangos i'r aelodau sut i weithio technegau ar y llaw i leddfu blinder a phroblemau hir dymor yn y corff.  Diolchwyd i Anwen am ei chyflwyniad diddorol dros ben gan Glenys. Mair a Glenys a ddarparodd y lluniaeth ac a roddodd y wobr raffl.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 8 Chwefror, pryd y cawn ein cyfarfod blynyddol byr, a thrafod y rhaglen am y flwyddyn. Bydd Te Crempog ar 8 Mawrth - byddwn yn cyfarfod am 12.30yp i ddathlu Gŵyl Dewi gyda chino wedi ei ddarparu gan yr aelodau. Croeso i bawb.

**Bingo**
Cynhelir noson Bingo yn y Ganolfan ar 24 Chwefror am 7yh. Bydd yr elw yn mynd at y Ganolfan i helpu ariannu llenni ffenestri newydd. Mae'r rhai sydd yno wedi bod yn eu lle ers 23 mlynedd ac wedi para yn dda iawn! Os hoffech gyfrannu gwobrau at y bingo neu'r tombola cysylltwch ag Ann Williams, 4 Bro Infryn neu Mair Griffiths, Pen y Bryn, Waen Wen.

**Profedigaeth**
Bu farw David Jones, o Ddwygyfylchi, (gynt o Dalybont), yn ddiweddar, sef brawd i Mrs Eva Thomas, Sŵn y Coed, Waen Wen. Anfon ein cydymdeimlad â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Anfonwn ein cydymdeimlad yn eu profedigaeth at Mrs Beryl Bryant, 12 Bro Infryn, sydd wedi colli mab yng nghyfraith a thad i'w ŵyr Mathew, Stephen Grant o Fangor.

**Croeso**
Mae teulu newydd wedi symud i mewn i Glan Hafod, Glasinfryn o Fethesda. Croeso cynnes iawn i Michael a Laura Hughes a'u dau fab Shaun a Dafydd i'r ardal. Dymuniadau gorau i chwi, a phob hapusrwydd yn eich cartref newydd.

# YSGOL RHIWLAS

**Croeso i Jenny Alty**
Croeso cynnes i Mrs Jenny Alty sydd wedi ymuno â ni yn Ysgol Rhiwlas.

**Kerbcraft Blwyddyn 1 a 2**
Bu plant blwyddyn 1 a 2 yn brysur iawn yn ddiweddar yn dysgu sgiliau newydd am Ddiogelwch y Ffordd. Daeth Paula a Manon i'n hysgol i gynnal sesiynau Kerbcraft ac roedd y plant wrth eu boddau yn chwarae gemau a mynd am dro i fyny'r pentref i ymarfer eu sgiliau newydd. Diolch yn fawr Paula a Manon.

**Prynhawniau Iechyd a Lles**
Mae ein sesiynau iechyd a lles ar brynhawn dydd Gwener wedi bod yn llwyddiant mawr gyda'n dysgwyr. Ers cwpwl o flynyddoedd, mae Emily ac Angharad wedi bod yn cynnal grwpiau garddio yn wythnosol, ac rydym wedi plethu ein clwb lles gyda'r hyn y mae Emily ac Angharad yn ei wneud yn barod. Gyda gwahanol weithgareddau yn mynd ymlaen, mae'r plant yn cael cyfle i arddio, i warchod creaduriaid bach, i wylio adar ac i warchod y gwenyn. Mae pawb yn cydweithio, cyfranogi'n hyderus a rhannu syniadau gwych o fewn eu grwpiau - daliwch ati!



**Welsh Whisperer**
Am ddiwrnod cyffrous i Gyfnod Allweddol 2 - buom yn ddigon ffodus i groesawu'r Welsh Whisperer i Ysgol Rhiwlas i gynnal gweithdy. Treuliwyd y bore yn cyfansoddi a chreu cân i'w pherfformio yn y neuadd yn y prynhawn. Cymaint o sgiliau yn cael eu datblygu mewn ffordd hwyliog; buom yn canu a dawnsio drwy'r prynhawn. Diolch yn fawr iawn i Andrew ac edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl yn fuan iawn!








**Ymweliad PC Andrew Jackson**
Croeso i Ysgol Rhiwlas, PC Andy! Cafodd y ddau ddosbarth sesiwn gyda PC Andy yn ddiweddar am faterion pwysig iawn. Pobl sydd yn ein helpu oedd y thema yn y Cyfnod Sylfaen, gyda llawer o'n plant yn trafod y gwasanaethau pwysig sydd ar gael i ni. Roedd Cyfnod Allweddol 2 yn trafod Diogelwch y Wê, a gofynnodd un plentyn am gael ei arestio - o diar!


HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

# YR ADDEWID

Mae criw o drigolion Dyffryn Ogwen wedi bod yn dod at ei gilydd dros y flwyddyn diwethaf i ateb y cwestiwn “Sut allwn ni yn Nyffryn Ogwen ymateb yn lleol i newid hinsawdd?” Maen nhw wedi bod yn gwneud hyn drwy broses Cynulliad Cymunedol GwyrddNi. Yn y cynulliadau maent wedi bod yn clywed gan arbenigwyr lleol, yn asesu cryfderau ac anghenion yr ardal, dychmygu’r dyfodol a meddwl am syniadau gweithredu. Fe gafodd llais pobl ifanc yr ardal ei glywed hefyd wrth iddynt gyflwyno gwaith y Cynulliad Ysgolion i’r Cynulliad Cymunedol. Mae’r broses cynulliadau wedi gweithio mewn sawl lle ar draws y byd ac rydym yn gyffrous o rannu gwaith Cynulliad Cymunedol Dyffryn Ogwen hefo’r gymuned.

Penllanw’r gwaith fydd Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ar gyfer Dyffryn Ogwen. Bydd y cynllun yn llawn syniadau ar gyfer be allwn ni ei wneud yn lleol i ymateb i newid hinsawdd. Bydd rhai syniadau mawr, uchelgeisiol, a bydd rhai syniadau ar raddfa lai. Mae GwyrddNi a Phartneriaeth Ogwen yn barod i gefnogi’r cynllun, ond y gobaith yw y bydd llawer o bobl a sefydliadau yn y gymuned yn awyddus i helpu i wireddu rhai o’r cynlluniau yma hefyd.

Bydd y cynllun yn barod ym Mis Mawrth, a chyn hynny rydym yn gofyn i bobl arwyddo Yr Addewid. Y cwbl yr ydych yn addo ei wneud ydi derbyn a darllen y cynllun pan mae o’n barod. Efallai y byddwch yn awyddus i helpu efo rhai o’r cynlluniau, neu’n gallu ei rannu gyda rhywun fydd efo’r sgiliau i helpu, efallai ddim, ond bydd y gefnogaeth o addo i ddarllen y cynllun yn weithred fach fydd yn helpu. I wneud hynny y cwbl sydd angen I chwi ei wneud yw mynd draw i https://bit.ly/AddewidGwyrddNiPledge a gadael eich enw a’ch cyfeiriad e-bost. Diolch!






British Association Landscape Industries
ACCREDITED


TRAWIADOL A CHYNALIADWY

GWERTHFAWROGWCH NATUR HARDDWCH GYDA THIRLUNIO CALED WELSH SLATE

Crëwyd Llechi Cymreig dros filiynau o flynyddoedd, gan esblygu’n ddeunydd dramatig, hardd ac unigryw a ddefnyddir gan benseiri, dylunwyr a pherchnogion tai.

01248 600656
enquiries@welshslate.com
welshslate.com

LLWYBRAU ▲ WALIAU ▲ COPINAU ▲ CERRIG NODWEDD
MONOLITHAU ▲ CERRIG MÂN ADDURNIADOL



# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Capel Shiloh Newydd**
Daeth y newyddion hynod o drist am farwolaeth ein cyn-weinidog, y Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon, ar Ionawr 14, ddeuddydd wedi angladd ei wraig yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun. Bu Gwynfor yn weinidog ffyddlon a chefnogol yn Shiloh, a byddwn yn colli ei gymeriad annwyl, a'i ofal tadol drosom. Bu ei angladd yng Nghaernarfon ar Ionawr 30. Cydymdeimlwn gyda'i ferched, Eurgain a Delyth, a'r holl deulu, wedi iddynt brofi dwy brofedigaeth lem o fewn dyddiau i'w gilydd.

*Gwasanaethau'r Sul*
**(yr oedfaon am 5 o'r gloch):**
Chwefror 19: Dafydd Coetmor Williams
Chwefror 26: R O Jones, Gaerwen
Mawrth 5: Philip Barnett, Swydd Efrog
Mawrth 12: Ffion Rowlinson, Llanllechid
Mawrth 19: Dr. Ian Morris
Mawrth 26: Eric Jones, Bangor

*Drws Agored*
Ydi, mae'r Drws ar agor yma bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch, felly beth am droi i mewn am sgwrs, paned a chynhesrwydd. Cydymdeimlwn gydag un sy'n mynychu bob bore Gwener yn ddieithriad, sef Mrs Mona Jones, Ffordd Tanrhiw, a gollodd ei brawd yng nghyfraith yn Lerpwl yn ddiweddar.

Mae eraill sydd wedi methu dod atom yn ddiweddar, sef Mr Wynne Roberts, Bryn Difyr, a Mrs Ann Hughes, Ffordd Tanrhiw. 'Rydym yn meddwl amdanoch, ac yn anfon ein cofion atoch.

O gynnal y Drws Agored, 'rydym wedi gallu anfon arian i ddwy elusen deilwng, sef £300 i elusen Wcráin, a £300 i'r banc bwyd ym Methesda. Diolch i bawb am eu haelioni ar fore Gwener.

*Gair o Ddiolch*
Dymuna Glyn, John, Gwenda, Aled, Alwena, a theulu'r diweddar Williams Hughes, Isallt, Cerrig Llwydion, ddiolch am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith, taid a brawd arbennig iawn. Gwerthfawrogir y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru er cof amdano. Hoffem ddiolch i Gwyneth a Viv Williams am eu caredigwrwydd a'u cymorth cymdogol tuag ato dros y blynyddoedd. Diolch i'r Parchedig Nerys Griffiths am arwain y gwasanaeth teimladwy yng Nghapel Jerusalemm ac i'r organyddes, Mrs Menai Williams. Diolch hefyd i Gwenan a'r staff o gwmni WO ac M Williams am eu trefniadau trylwyr a gofalus. Diolch yn fawr.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Erbyn y bydd y Llais wedi dod o'r wasg, bydd y gangen wedi cyfarfod yn Festri Capel Shiloh Newydd, i groesawu Ann Catrin, y gof arian ac aur o Gaernarfon, ond gynt o Bryn Cul, Tregarth. Bydd adroddiad ar y noson yn rhifyn Mawrth.

Nos Lun, Mawrth 6, cynhelir Cinio Gŵyl Dewi'r gangen – mwy o fanylion i ddilyn. Cysyllter â Christine Morris 600580 neu Delyth Jones 601011.

**Profedigaeth**
Trist iawn oedd clywed y newyddion am farwolaeth Glyn Pritchard yn Florida, yr Unol Daleithiau ar ddiwedd mis Ionawr. Roedd yn fab i'r diweddar Elin a Gwilym Pritchard, Llety, Tregarth, ac yn frawd annwyl i Dafydd, Gareth ac Alun. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf atoch i gyd fel teulu.

CAFFI
COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

**Bwyd cartref blasus**
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
**Cinio arbennig bob dydd Iau**
**Bwyd i'w gario allan**
**Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)**
Prisiau rhesymol
**ORIAU AGOR**
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

MODURDY
FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
**A. Ll. Williams**
**Stryd Fawr, Bethesda**
**♦ PROFION M.O.T. ♦**
**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO**
**♦TEIARS A BATRIS♦**
**GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN**
☎ 600723
Ffacs: 605068

# PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

Llongyfarchiadau i Catrin Wager ar gael ei hethol yn ymgeisydd (dros dro) ar gyfer Senedd San Steffan yn Etholaeth Arfon. Catrin ydi cadeirydd Cangen Dyffryn Ogwen ar hyn o bryd ac yn un o gynghorwyr y Blaid ar Gyngor Cymuned Bethesda.

Rhaid diolch yn fawr i'r rhai wnaeth gyfrannu i apel Nadolig Plaid Cymru Arfon. Yn y diwedd, roedd £4765 wedi ei godi ar gyfer prosiectau bwyd dros Arfon, gan gynnwys Pantri Pesda. Disgrifiodd Sian Gwenllian yr ymdrech fel "Teimlad chwerwfelys," gan ychwanegu "Ni ddylem fod mewn sefyllfa lle mae 8 prosiect bwyd gwahanol wedi'u sefydlu'n weddol ddiweddar o fewn un etholaeth yn unig." Mae'n hynod o galonogol fod pobl yn dod at eu gilydd mewn amseroedd caled.

Roedd yn braf gweld aelodau o Blaid Cymru, gan gynnwys Sian Gwenllian a Hywel Williams, yn cyd-sefyll gyda gweithwyr allweddol fel y gweithwyr post, y nyrsys a'r staff ambiwlans. Mae'n warthus fod y gweithwyr yma wedi gorfod streicio, nid yn unig i amddiffyn eu safonau byw, ond hefyd i achub y gwasanaethau. Mae'n amlwg na fedrith y gwasanaeth iechyd oroesi gyda phrinder staff, felly bydd angen buddsoddiad go iawn i gadw ac i recriwtio staff. Mae hyn yn fater brys, felly dyna pam mae Plaid Cymru wedi galw ar Lywodraeth Lafur Cymru i ddod at y bwrdd a gwneud cynnig teg i'r gweithwyr. Nid oes amser i aros am San Steffan sydd yn mynnu llusgo eu traed – rhaid datrys y broblem rwan.

Mae Plaid Cymru hefyd wedi bod yn ymgyrchu i achub yr ambiwlans awyr ar safle Dinas Dinlle. Mae'r gwasanaeth yma yn arbennig o bwysig i Ogledd-Orllewin Cymru. Mewn araith yn y Senedd, dywedodd Mabon ap Gwynfor "Y gwir amdani yw pe bai canolfannau Caernarfon a'r Trallwng yn cau - yna fe fydd cymunedau arfordirol a gwledig yn dioddef." Trefnodd y Blaid gyfarfod cyhoeddus am y mater cyn y Nadolig i roi cyfle i'r cyhoedd ddweud eu dweud. Rydym yn gobeithio na fydd y gwasanaeth yn symud oddi wrth yr ardaloedd lle mae ei angen fwyaf.

# CHWILAIR



## LLONGAU BANGOR

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | V | S | D | O | U | G | L | A | S | P | E | N | N | A | N | T | H | E | I |
| P | M | M | G | V | H | M | D | W | H | U | Z | M | X | V | E | A | D | D | N |
| O | A | A | P | A | U | Q | U | S | O | F | R | P | Y | N | Q | Z | G | R | H |
| R | R | C | U | A | M | W | A | N | H | A | R | R | I | E | T | O | Y | R | I |
| T | Y | A | S | L | Z | U | T | R | F | D | X | R | U | P | W | R | H | C | Q |
| P | G | H | W | I | E | H | O | O | T | Y | E | E | E | G | E | O | M | H | E |
| E | R | P | T | C | N | T | C | G | B | H | B | C | U | U | J | P | L | T | M |
| N | A | I | V | E | E | V | D | N | T | C | U | B | B | F | R | F | O | G | J |
| R | C | V | I | M | W | I | R | A | R | X | I | R | M | H | T | T | L | O | S |
| H | E | K | O | A | G | P | C | B | A | W | R | C | W | M | K | L | C | B | O |
| Y | R | C | X | R | O | D | V | F | I | R | Y | H | S | Y | E | T | M | R | E |
| N | F | Y | J | Y | N | D | Z | O | R | H | B | C | W | B | A | O | S | C | R |
| A | I | X | N | A | A | I | L | Y | B | X | J | J | R | M | B | T | W | T | E |
| X | M | D | E | X | L | K | F | T | M | U | P | E | C | Q | Y | O | T | I | L |
| F | E | N | R | Z | G | Q | R | I | A | O | H | C | T | D | G | W | S | L | Z |
| E | N | B | E | A | J | K | J | C | C | T | C | L | N | L | R | V | O | G | J |
| A | T | H | R | E | E | S | U | S | A | N | S | P | W | P | G | S | O | W | L |
| J | Q | U | L | F | S | V | T | E | X | E | U | G | H | S | L | Z | E | A | F |
| X | I | W | T | Z | H | K | H | V | A | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O |

Yn y Chwilair mis yma mae enw deuddeg LLONG A ADEILADWYD YM MANGOR rhwng 1830 a 1879 i chwi eu ddarganfod. Mae rhan helaeth o'r enwau yn Saesneg. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn **24 Chwefror**.

Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Dwi'n siŵr fod Chwilair Ionawr wedi dod ag atgofion yn ôl i lawer un ohonoch wrth feddwl am sut roedd pethau yn yr ardal erstalwm, gyda'r holl fusnesau a phrysurdeb oedd yn bodoli, o'i gymharu â'r dyddiau sydd ohoni heddiw.

**Dyma atebion Chwilair Ionawr:-** Brittania Bakery; Dol Dafydd Garage; Douglas Arms; Douglas Garage; Kingswood Cafe; Ogwen Pharmacy; Purple Motors; Regent House; Sheffield Stores; Temperance Hotel; Treflan; Victoria Cafe.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:-** Rhiannon Hughes, Llanfairfechan; Stella Dafis, Rachub; Judith Hughes, Llangoed; Gwen Davies, Tanysgafell Isaf; Elizabeth Buckley, Tregarth; Eirwen Owen, Erw Las; Gwenda Bowen, Gerlan; Doris Shaw, Arafa Don; Rosemary Williams, Tregarth; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Liz Hughes, Tregarth; Carys Parry, Glanogwen; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Wendy Eccles, Llanllechid.

**Enillydd Ionawr oedd:-** Judith Hughes, Wenallt, Llangoed, Beaumaris LL58 8NN

# Natur o'n Cwmpas

## Glas y dorlan – 'sgotwr gorau'r ardal

Sbloets o liw ydi'r glas y dorlan, yn fflachio o'i gangen i'r dŵr ac yn ôl mewn chwinciad. Fo a'r crëyr glas, yr eryr tinwen a gwalch y pysgod sydd yn uwch-gynghrair bysgota byd natur. Mae glannau afon Ogwen yn gynefin iddo, ond mater o lwc ydi ei weld o. Ar un adeg mi fyddai un i'w weld ar lan Llyn Cae Star, yr ochr isaf i Bont Ring ym Methesda. Rhaid dod o hyd i'w dwll-nythu mewn torlan a'i wylio'n mynd a dod, neu ei ganfod yn ei hoff lecyn yn aros yn llonydd ar gangen uwchlaw'r dŵr. A hyd yn oed wedyn, cip sydyn a gaiff y gwyliwr ffodus. Fel profiad yr englynwr Trebor Roberts:

Rhyfeddais, sefais yn syn – i'w wylio
  Rhwng yr helyg melyn,
Yna'r lliw yn croesi'r llyn, –
Oedais ond ni ddaeth wedyn.

Ia, profiad prin iawn ydi gweld yr aderyn rhyfeddol hwn, Fodd bynnag, ers rhai blynyddoedd bellach mae modd gweld glas y dorlan yn gymharol hwylus, a hynny yng ngwarchodfa natur Llyn Celanedd yn Aberogwen. Mae cuddfannau Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn cynnig cyfle gwych i'w wylio, tynnu ei lun neu ei ffilmio, ond er bod yr amgylchiadau'n ffafriol a siawns go dda y bydd cyfle i'w weld, rhaid wrth hir amynedd a dyfalbarhad.

Aderyn cymharol fychan ydi o – rhyw chwe modfedd a hanner (16.5cm) – gyda phen mawr a chynffon fer. Amrywiaeth lliwiau ei blu ydi rhan o'r hyn sy'n ei wneud yn apelgar – rhannau uchaf ei gorff yn wyrddlas metalaidd llachar; rhan uchaf ei fron a'i wddw yn wyn; a'i fochau ac o dano yn winau



Llun gan Karen Roberts, Northwich (gynt o'r Gerlan) yn Llyn Celanedd, Aberogwen.

(browngoch orennaidd). Trawiadol hefyd ydi ei big – yn fain a hir fel dagr.

Mae o'n bysgotwr deheuig iawn, yn aros ar y gangen hyd nes y gŵel o bysgodyn bychan neu bryf, yna plymio i'r dŵr fel mellten a dychwelyd yr un mor sydyn efo'i ysglyfaeth yn ei big.

Dydi glas y gorlan ddim mor gyffredin ag y bu, ac mae'r rhywogaeth ar restr felen rhywogaethau mewn perygl, gyda'r RSPB yn amcangyfrif mai tua 6,400 o barau sydd bellach yng ngwledydd Prydain. Byddai'n ddiddorol gwybod faint sydd yng Nghymru. Ewch i lawr i un o guddfannau gwarchodfa natur Aberogwen a chadw llygad ar lannau coediog Llyn Celanedd, ac efallai y byddwch yn ddigon ffodus i gael cip ar y sbloets o liw yn pysgota neu'n gwibio ar draws y llyn.

## Wyddech chi ...?

- fod 42 math o löyn byw (iâr fach yr haf/pili pala) wedi eu cofnodi yn Eryri dros y blynyddoedd.



- mai'r ceiliog cog a glywn yn canu'r deunod 'gw-cw' ac nid yr iâr. Rhyfedd ei fod yn cyrraedd yma o fewn rhyw ychydig ddyddiau i'r 21ain o Ebrill bron yn ddi-ffael.
- fod Llyn Idwal yn 33 troedfedd o ddwfn yn y rhan sydd islaw'r graig fawr yr ochr draw. Nid yw gweddill y llyn ond tua 10 troedfedd o ddwfn.

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

# Chwaraeon

### Rygbi

Mae Huw Davies, o Fraichmelyn, wedi'i ddewis ar gyfer carfan Chwe Gwlad Cymru dan 20 oed! Eisoes, bu'n chwarae mewn dwy gêm gyfeillgar, gan gael ei ddewis yn gapten yn erbyn yr Alban, a chwarae rhan bwysig mewn buddugoliaeth dros Wlad Pwyl.



Yn naturiol, mae ei rieni, Dylan a Nia Davies, yn hynod o falch ohono, gan dystio bod Huw wedi gweithio'n hynod o galed i gyrraedd y safon angenrheidiol, ac maent yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi ei hyfforddi a'i gefnogi ar y daith.

'Rydym ninnau i gyd yn ymhyfrydu yn ei lwyddiant, ac yn dymuno'r gorau iddo i'r dyfodol.


CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu




18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

# CROESAIR



**AR DRAWS**

1 Chewch chi ddim ohono heb dân meddai'r hen air (3)
3 Ysgwn i oedd Pedr a gweddill y disgyblion yn ei adrodd bob nos (5)
7 Arferiad i ddathlu penblwydd, priodas neu'r Nadolig (6)
8 Ers i Gwen fach ddechrau'r ysgol mae'n eu mwynhau (6)
9 Mi glywais drwy fod yn effro fod yn rhaid i mi fod yn ofalus bob amser (11)
11 Wedi'n troi i fod yn wahanol (5)
13 Mae'r cwch bach yn symud wrth yr angor, peidiwch a'i losgi (5)
15 Medal Ryddiaith 1964 (5,6)
17 Y disgybl Pedr yn dangos ei wendid a'i ofn (6)
19 Disgybl gwahanol oedd Ioan yn ôl y disgrifiad (6)
20 Prifddinas Asiaidd yn ne y penrhyn rhanedig (5)
21 Efallai un hwylio yn 13 Ar Draws (3)

**I LAWR**

1 CD a chyfrol o hoff emynau gan Gôr Hen Nodiant (7)
2 Lle da i fod arno os ewch i lewyg (5)
3 I hwyluso'r tywallt os am baned o de (3)
4 Astudio creigiau ein planed ni (7)
5 Rhai o gampau y gemau Olympaidd (5)
6 Fel Romeo a Juliet neu Trystan ac Esyllt (8)
10 A dyna fi wastad am fod yn well a gwneud llai o sŵn (8)
12 Edwin o'i go' am ei fod eisiau paratoi i ddweud yr amser cywir (7)
14 Chwa ddeifiol o'r dwyrain (7)
15 Dwy mewn côt ond dim mewn gwasgod (5)
16 Gwneud i'r botel beidio bod yn wag (5)
18 Dawns Geltaidd fywiog (3)

Atebion erbyn **3ydd Mawrth 2023** fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Chwefror', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

**ATEBION CROESAIR IONAWR 2023**

**AR DRAWS** 6 Ewrop, 7 Lliaws, 9 Oriawr, 10 Nionyn, 11 Meirioli, 13 Ynys, 14 Stoc, 16 I'r Wal Goch, 18 Llafnau, 20 Nag Oes/Oedd, 21 Obama, 22 Eilydd

**I LAWR** 1 Chwarae, 2 Ionawr Y Cyntaf, 3 Ellyn, 4 Carol Y Plygain, 5 Ysbyty, 8 Priodi, 12 Igwana, 15 Tramor, 17 Offeryn, 19 Uchaf

Ambell lithriad ym mhos Ionawr. Y 'term llafar negyddol' (20 Ar Draws) oedd 'nag oes/nag oedd'. Cafwyd 'nag neb' a 'nag gei'. Hefyd cafwyd 'nwyon' yn hytrach na'r ateb cywir 'Ewrop' (6 Ar Draws).

Dyma'r croeseirwyr anfonodd atebion hollol gywir: John R. Jones, Wendy Eccles, Llanllechid; Dulcie Roberts, Gareth Oliver, Tregarth; Stella Dafis, Rachub; Judith Hughes, Llangoed; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Barbara Jones, Talybont; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Iona Williams, Llanddulas; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Doris Shaw, Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Bethesda

Yr un sy'n gyntaf allan o'r het am y wobr y tro yma yw ymgais Judith Hughes, Wenallt, Llangoed, Ynys Môn LL58 8NN

**JOHN ROBERTS**

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

post@llaisogwan.com

**DAFYDD CADWALADR**
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207